

ECO'R WYDDFA

Rhif 104

MEHEFIN 1985

Pris 20c

DIWYDRWYDD MAWR YM MRYN PISTYLL



Y criw hapus sy'n brysur baratoi Bryn Pistyll ar gyfer yr agoriad swyddogol ar Orffennaf 5. Gyda'r gweithwyr mae Keith, Paul a David mae Alan Owen cynorthwyyr (chwith) a Hywel Evans, gweinyddwr yr Antur (de).

— Mae breuddwydion sefydlwyr cwmni Antur Waunfawr ar y ffordd i gael eu gwireddu. Bellach mae tri o bobl â nam meddwl yn gweithio'n rheolaidd ar y safle ym Mryn Pistyll a'r cynllun yn mynd rhagddo. Ymunodd yn agos i ddeucant o bobl Waunfawr â'r cwmni a sefydlwyd i

(a) roi amgenach dewis gwaith defnyddiol i bobl araf eu meddwl

(b) roi cyfle i bobl araf eu meddwl gydweithio â phobl heb anfantais

(c) roi cyfle i 5 neu 6 o bobl araf eu meddwl ymgartrefu mewn tai cyffredin ac ymdoddi i'r gymdeithas leol.

Yng nghyflawnder amser gwelir hen fythynnod a siop Bryn Pistyll wedi eu hailadeiladu, a'r gweithgor yn trin a defnyddio'r tir a gwerthu'r cynnyrch yn y siop. Sefydlir diwydiant bythynnol ar y safle a bydd cynllun i roi gwasanaeth i'r hen a'r anabl yn y gymdeithas.

Bydd cyfeiriad at Antur Waunfawr

a dangosir rhan o'r hyn sy'n mynd ymlaen fel cefndir i raglen 'Trobynt' ar S4C ar Fehefin 13, 1985.

Mynegodd Is-ysgrifennydd Cymru, Mr Wyn Roberts, A.S., ei awydd i ymweld â'r safle a bydd ef, ynghyd â Mr Dafydd Wigley, A.S., yno yn ystod y prynhawn ar Orffennaf 5.

Gobaith aelodau'r cwmni yw y bydd yr hyn sy'n digwydd yn y Waunfawr yn ysgogi cynlluniau tebyg mewn rhannau eraill o Gymru, ac mae Antur Waunfawr yn cael cyhoeddusrwydd helaeth. Eisoes mae'r cwmni wedi cyhoeddi a dosbarthu pamffledi yn esbonio'r fenter ac yn gwahodd rhai sydd â diddordeb i ymweld â Bryn Pistyll. Bydd croeso i ddarlennwyr Eco'r Wyddfa i'r seremoni agoriadol ac yn wir mae croeso i unrhyw rai a diddordeb ac eisiau rhagor o wybodaeth am y fenter gysylltu â Mr Hywel Evans, y Gweinyddwr, unrhyw amser. Rhif ffôn Antur Waunfawr yw Waunfawr 721.



1984: Rhai o blant Waunfawr yn cyflwyno siec i gadeirydd yr Antur, — Gwyn Davies.

Darllenwyr Newydd

Ydych chi'n gwybod am rhywun sy'n byw'n agos atoch a fuasai'n hoffi derbyn Eco'r Wyddfa bob mis? Os ydych, dywedwch wrth y person a ddaeth â'r rhifyn hwn i chi, neu ffoniwch unrhyw un o'r swyddogion sydd â'u henwau ar dudalen 2.

MWYAFRIF MAWR O BLAID CADW'R LEIN YN LLEOL

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Rheilffordd Llyn Padarn Cyf. yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, fore Sadwrn, Mai 25. Yn ei ddilyn, roedd Cyfarfod Anghyffredin i newid Cyfansoddiad y Cwmni.

Deilliai hyn yn uniongyrchol o'r datblygiadau diweddar gan Gwmni Cadogan Properties, Llundain i brynu cyfranddaliadau unigol yng Nghwmni Rheilffordd Llyn Padarn. Ofnid y byddai rheolaeth y Cwmni yn disgyn i ddwylo estroniaid — fel ag sydd eisoes wedi digwydd i Gwmni Rheilffordd yr Wyddfa. Drwy newid cyfansoddiad Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn, gobaith y cyfarwyddwyr oedd ei gwneud yn llawer anos i gyfranddalwyr werthu allan heb i'r Cyfarwyddwry:

a) wybod am y bwriad o werthu, a b) gael yr hawl cyntaf ar eu prynu (ar ran y Cwmni).

Yn syml, roedd y Cwmni am gadw Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn yn un lleol, gan mai yn yr ardal hon ac o fewn Gwynedd y mae'r rhan helaeth o'r cyfranddalwyr.

Fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf, roedd Cwmni Cadogan Properties wedi cynnig £25 am bob cyfranddaliad £10. Deallwyd fod y cynnig hwn bellach wedi ei godi i £60 am bob cyfranddaliad. Er hynny, ymateb mwyafrif y cyfranddalwyr oedd pleidleisio i newid y cyfansoddiad, ac felly, gau'r drws ar unrhyw ymdrechion gan unigolion neu gwmni fel Cadogan i brynu cyfranddaliadau yn y dirgel.


Ar hyn o bryd mae 2909 o gyfranddaliadau yng Nghwmni Rheilffordd Llyn Padarn. Roedd 2304 ohonynt wedi pleidleisio ar y newidiadau tyngedfennol hyn. O blaid y cynnig (h.y. o blaid cadw'r lein yn nwylo lleol) roedd 2278. Yn erbyn y cynnig roedd 26.

ANTUR Y WAUNFAWR

Estyn y mae Bryn Pistyll,
Er y gwan, ei her i'r wyll;
Ni chred y gair 'methedig'
Yno'r brau a gyrcha'r brig.
Yn alluog, yn llawen —
O anobaith, gwaith a gwên.

Lle bu'r siop gwerthu popeth
Â'r Antur yn fur di-feth,
Yn hin gu y Waun hwy gânt
Urddas a theg hyfforddiant
Turnir a phob punt ernes
O heth lem, gymdogaeth les.

JOHN ROBERTS,
LLANRUG



Buddugoliaeth ysgubol sy'n dangos yn blwmp ac yn blaen i'r Cwmni o Lundain nad yw cyfranddalwyr Rheilffordd Llyn Padarn am i neb o'r tu allan ymyrryd yn eu busnes hwy.

DEGFED RAS YR WYDDFA



RHYNGWGLADOL

Byth ers pam y'i sefydlwyd hi ym 1976 mae Ras yr Wyddfa wedi denu mwy a mwy o redwyr safonol. Wythdeg oedd y nifer rhedwyr yn y ras gyntaf; roed dros 400 yn rhedeg yllynedd a thua cant ohonynt o Eryri.

Eleni, pan ddaw'r rhedwyr at ei gilydd i'r cychwyn ar Bont Bala, prynhawn Sadwrn Gorffennaf 20 byddant yn barod i redeg mewn ras o statws rhyngwladol. Derbyniodd y ras hynod boblogaidd yma yn ddiweddar gan Gymdeithas Athletau Amatur Cymru. Bydd rhedwyr o'r Eidal, Swistir, Lloegr, a'r Iwerddon yn rhedeg ochr yn ochr â charfan gref o Eryri.

Mae poblogrwydd Ras Ryngwladol (bellach) yr Wyddfa yn glod i lywyddiaeth a brwdfrydedd heintus ei sylfeinydd, Ken Jones, Llanberis, Cadeirydd Cymdeithas Rasmus Mynydd Cymru.

ECO'R WYDDFA

RHIF 104
MEHEFIN 1985

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane
Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 77163).

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Jane Roberts, 'Rallt
Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch,
Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

NANT PERIS: Mrs J.E. Elis, 8
Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis
870 733).

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
MEHEFIN 27

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MEHEFIN 18
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

GWLEIDYDDIAETH A LLYWODRAETH LEOL

Annwyl Olygydd,

Carwn drwy gyfrwng eich
colofnau fynegi fy nioch i bawb a'm
cefnogodd i a Phlaid Cymru yn yr
Etholiad Sirol yn ddiweddar. Mae'n
ddrwg gennyf na chaf gyfle i
wasanaethu'r ardal ar y Cyngor Sir
am y pedair blynedd nesaf ond wrth
longyfarch a dymuno'n dda i Mr
Henry Owen carwn wneud rhai
sylwadau.

Mae rhai'n awgrymu na ddylid
'dod â gwleidyddiaeth i mewn i
Llywodraeth Leol' drwy sefyll yn enw
plaid. Y mae hyn yn debyg i ddweud
na ddylid dod â chrefydd i'n capeli!
Gwleidyddiaeth yw busnes
Llywodraeth Leol ac y mae'n deg i
etholwyr gael gwybod ym mhle
mae'r cynghorwyr yn sefyll. Faint
ohonom, er enghraifft, sy'n gwybod
ym mhle mae'r cynghorwyr
'Annibynnol' hyn yn sefyll ar fater
addysg Gymraeg, amddiffyn sifil,
toriadau'r Llywodraeth, diarfogi
niwcliar, a'r Seiri Rhyddion? Mae'n
bwysig ein bod yn cael gwybod pwy
sy'n ein cynrychioli.

Ac wrth honni ein bod yn sefyll
dros bawb yn hytrach na grŵp neu
blaid arbennig, beth am yr achos
cynllunio diweddar o godi rhagor o
dai gwyliau rhwng Llandwrog a
Saron? Er ei fod yn gwbl groes i'r
cynllun fframwaith a dderbyniwyd fel
sail i bolisi'r Cyngor Sir a Dosbarth,
ac yn groes i'r farn leol, cafodd
gefnogaeth gref gan un grŵp o
gynghorwyr 'Annibynnol' - ac y
mae'r mater yn dod gerbron eto am y
trydydd tro. Mae teyrngarwch y grŵp
hwn i'w gilydd yn rhyfeddol - croes i
bolisi cynllunio a buddiannau'r ardal
a'r iaith neu beidio. 'Annibynnol'?
Tybed?

Yr eiddoch, dros Gymru,
Dafydd Iwan
Penyberth
Waunfawr

EIN DYLED I EOS PENBONT

Barchus Olygydd,

Ysgrifennaf ychydig eiriau
i'ch misolyn dethol parthed
cyfraniad unigryw Eos Penbont o
fro'r Wyddfa i ddiwylliant cyfoes
y genedl. Ymhellach, hoffwn
fynegi'n gyhoeddus
werthfawrogiad prifeirdd y rhan
hon o'r Deheubarth o'r cymorth
barddonol a gawsom yn
ddiweddar drwy law'r Eos.
Cyfeirio'r wyf yn bennaf at ei
sylwadau treiddgar ar y
'Mesurau Awdurdodedig' yng
nghyd-destun yr Orsedd a'r Elidir
yn eisteddfodau Dosbarth Senni.

Wedi cynifer o eisteddfodau
anawdurdodedig a deddfau
anghyfraith a ddilynwyd yn y
cyfryw leoedd yr Eos a fu'n
gyfrifol am ein harwain yn ôl at
drefn yr awdlau rheolaidd yn
cynnwys pob un o bedwar mesur
ar hugain cerdd dafod Dosbarth
Senni. Dyweder a fynner am Eos
Penbont a'i gyfreithiau, bellach,
rhaid i bob un a chwenycho ennill
Cadair Senni ymostwng ac
ufuddhau yn gyfangwbl iddynt
neu fod yn agored i lwyr
wrthodedigaeth.

Ein cyfarchion i'r Eos mwyn;
mawr yw eich braint chwi yn
ardal Eco'r Wyddfa o gael y fath
athrylith yn wastadol yn eich

plith. Teilwng ac addas yw cloi
drwy ddyfynnu hen eiriau
Glasfynydd i un arall o Eosiaid
Eryri:

Mwyn wyt Eos yn y pant,
Dy awen di sydd at ein dant.

Yn gywir,
Leisa Senni (Elizabeth
Pierce-Lloyd)
Uwch-Awen
Pontsenni
Aberhonddu
Powys.

DIOLCH I BWY?

Ffarm Penrhos
Bethel
Caernarfon

Annwyl Gyfaill,

Pleser mawr oedd derbyn
eich cyfarchion cynnes i mi a'm teulu
wedi ein hymddangosiad ar y teledu.
Gan i chwi beidio rhoi eich enw a'ch
cyfeiriad teimlaf mai dyma'r unig
ffordd y gallaf gydnabod yn
ddiolchgar eich dymuniadau da i ni.
Gallaf eich sicrhau y bydd y
penillion hyn ymysg fy nhrysorau
pennaf. Rwyf wedi eu dangos i lawer
ac y mae canmol mawr iawn arnynt.
Derbyniwch fy nioch cynhesaf i
chwi gan fawr obeithio y byddwn ein
dau yn cyfarfod yn fuan ac y caf
eglurhad ar y rheswm dros beidio
rhoi eich enw a'ch cyfeiriad.

Yn gywir iawn,
Hywel Roberts

I'CH LLONGYFARCH I GYD AR ÔL EICH
GWELD AR Y RHAGLEN 'GWR Y GADAI'

Nos Fercher wythnos dwythaf

Pwy oedd ar y TV
Ond Hywel gwr y gadair,
Un da am ddygu ci.
Yn frenin ar ei aelwyd
Mor hapus gyda Sw
A chydgorff mwyn i'w ganfod
Cydrhwng y plant a nhw.

Er gwaetha'r ddamwain honno
A gafodd yn y coed
Mae'i ysbryd eto'n para
Mor ieuanc ag erioed.
Ac nid mor hawdd dygymod
A'r bywyd newydd chwaith
I ddyn oedd wedi arfer
A gwneud ei ddiwrnod gwaith.

Dioddefodd yn Gobowen
Am fisoedd wedi hyn
Mewn gobaith deuai eto
I'w fywyd haul ar fryn.
Er mwyn ei briod hawddgar
Na fu ei gwell erioed,
A'r plant, rhai wedi tyfu
A Huw ond pedair oed.

A thrwy ei ddewr ymdrechion
A'r llawfeddygon clên
Er bod yn gaeth i'w gadair
Mae nawr yn mynd fel trên.
Mor hyfryd oedd ei weled
Ymysg ei wyrion iach
Yn chwarae mor bleserus
Yr oedd fel hogyn bach.
Ac yna yn y briodas
Fel tad yn llanw'i swydd.
Gaf innau gyd-ddymuno
I'r ddeuddyn Dduw yn rhwydd.
Rwy'n siŵr bydd ei gynghorion
I'r ddau sydd erbyn hyn
Yn ŵr a gwraig yn para
I ddyddiau'r blewyn gwyn.

Gŵyr pawb nad ydyw bywyd
Bob amser yn rhyw rwydd
Ond cydweithrediad ydyw'r
Gyfrinach ym mhob llwydd.
I chwithau draw ym Methel
Hir oes a lwc i chwi
Oddi wrth y wraig a minnau,
'Rhyw esgus o ddyn ci'.

Cofion gorau atoch yna. Gwelwn chwi yn
y treialon at yr haf, gobeithio ynte.

COFIO DR KATE ROBERTS

Annwyl Olygydd,

Diolch yn fawr i Sioned Williams,
Penisarwaun ac Angharad Price,
Bethel am eu cyfraniad am Dr Kate
Roberts yn Eco'r Wyddfa mis Mai.
'Brenhines ein Llên' yn wir. Hoffwn
innau roi clod iddi fel athrawes dda,
yn wir rhy dda i fod yn athrawes
Standard Four gan ei bod wedi
graddio mor dda ac yn ddwfn iawn i
mi pryd hynny.

Ysgol Dolbadarn, Llanberis oedd
y lle cyntaf iddi fod yn athrawes ac
mi roedd fy mrawd Ellis Tudur
Roberts yn athro yn Standard Three
yr un pryd. Roedd llun o'r athrawon
yma yn 'Llys Tudur' am
flynyddoedd nes i mi ei roi i'r
Cyngor i'w roi ar y wal yn Angorfa,
sef hen gartref T. Rowland Hughes,
oedd hefyd yn ddisgybl iddi ynghyd
â llawer arall sydd yn byw heddiw yn
Llanberis. Rhyw flwyddyn fu hi yn
Ysgol Dolbadarn os wyf yn cofio'n
iawn. Cofiaf yn dda iddi roi gwers ar
ysgrifennu llythyr yn Gymraeg cyn
gwyliau'r haf 1914 ac yn dweud y
buasai yn hoffi cael llythyr oddi
wrth rywun ohonom ac y buasai hi
yn siŵr o'i ateb. Fe ysgrifennais i
iddi ar gerdyn gan fod y stamp yn
rhatach na llythyr a dim angen
ysgrifennu cymaint. Cefais innau
gerdyn yn ôl ganddi a llun Pass
Aberglaslyn arno ac mae yn fy
meddiant o hyd gyda stamp dimai
arno a stamp Post Rhostryfan, Awst
31, 1914. Rwyf yn ei drysori'n fawr.
Roedd wedi rhoi ei chyfeiriad ar y
bwrdd du i bawb ohonom ei gofio a
dyma fi yn dal i fyw yn yr un
cyfeiriad lle'r ysgrifennodd hi ataf
yn 1914.

Mrs Maisie Lewis,
Llys Tudur,
Warden St
Llanberis.

Dyma'r hyn a ysgrifennodd Kate
Roberts:

*Caergars, Rhosgadfan.
Annwyl Mary Higgins, Diolch
yn fawr am y cerdyn a
anfonasoch i mi llyth
anket yn ôl. Draig gennyf
ini fod mor hysbys
ysgrifennu atoch.
Gobeithio y byddwch yn
llwyddiannus iawn y
4r 4-2-84.
Gyda dymuniadau gorse
eich hen athrawes
K. Roberts.*

DIOLCH A FFARWEL

Annwyl Gyfeillion,

Fel y gwyddoch bellach
mae'n siŵr, byddwn yn gadael ardal
yr Eco yn y dyfodol agos. Daw fy
nghyfnod fel Ficer Penisarwaun a
Llandinorwig i ben ddydd Llun
Mehefin 3. Fe'm sefydlir yn Eglwys
Botwnnogog am 7.00 nos Fercher,
Mehefin 12.


Rydym am fanteisio ar y cyfle
hwn i ddiolch i chwi'r ardalwyr am
eich cefnogaeth a'ch caredigrwydd
trwy gydol y tair blynedd a gawsom
yn eich plith. Fel teulu, credwn fod
yr Arglwydd Iesu yn ein galw i
wasanaethu yn ardal Llên. Er hyn,
byddwn yn colli cymdeithas ein
cyfeillion yn ardal yr Eco. Diolch i
chwi i gyd a bendith Duw arnoch yn
y dyfodol.

Yr eiddoch yng Nghrist Iesu,
Aled, Marie, Seimon, Meleri a
Steffan Edwards

"GUIDE BOOKS" – LLANBERIS

Daeth mwy o ymateb ynglŷn â'r uchod i law'r golygydd gan Mrs. M. Williams, Nant Forgan, Cwm-y-Glo. Mae'r llun yn dangos rhai o'r gwahanol lyfyrnau a phamphledi a gyhoeddwyd i hysbysebu Llanberis i'r byd a'r betws fel canolfan wyliau delfrydol. Cyhoeddwyd y 'guide' diweddaraf yn 1984 gan Bwyllgor Cyhoeddusurwydd Llanberis. Nid oes sicrwydd pendant hyd yn hyn ynglŷn â dyddiadau cyhoeddi y 'guides' cynharach.

Mae'r llyfryn bach 'In the Heart of Snowdonia' yn amlwg wedi ei gyhoeddi i hyrwyddo Gwesty'r Victoria – a oedd ar y pryd yn eiddo i'r 'Snodwon Mountain Tramroad and Hotels Co. Ltd.' Yn y llyfryn, ceir cyfeiriad at lyfr arall – tybed ai hwn oedd y 'guide' gwreiddiol?



Dyma'r disgrifiad:- "...'Book of Snowdon', beautifully printed on art paper, with 42 illustrations, or the 'Snowdon and Welsh Highland Holiday Book', 128 pages with 42 illustrations, either of which

may be had for 1s.3d...."

Oes rhywun â chopi o unrhyw un o'r rhain? Anfoner unrhyw wybodaeth at y Golygydd Erthyglau, (Ffôn: Caernarfon 3515)

CLOD I E.J.

At y Golygydd,

Pleser a diddorol iawn ydoedd darllen 'Rhagfarn' yn rhifyn mis Mai, o waith E.J. Owen, Weybridge. Diddorol hefyd ydyw gwybod ei fod yn wyl i Ap Glaslyn ac wedi ei fagu ar aelwyd yr 'Ap' yn ystod ei weinidogaeth yn y De. Mae E.J. i'w longyfarch am ei Gymraeg gan nad oedd yr iaith yn gryfiawn yn y De ym mlyneddodd ieuencid y bachgen a chafodd weddill ei addysg yn Lloegr a phriododd â Saesnes! Da iawn, Edward John!

Eurwen Atkinson,
109 Tre'r Gof,
Caernarfon

AR WERTH

Pram Mothercare
Lliw brown.
Gorchudd haul a basged
siopa – £45
Llanberis 870158

COED Y CYRNANT – WAUNFAWR

Llynedd ysgrifennais hanes trist am dorri'r coed mawr yng Nghoed y Cynant ar ochr Allt Coed Mawr. Yr oedd rhai o'r coed yn ddigon hen i fod yn dystion mud i'n hynt a'n helynt ni, pobl y Waun, am ddau gant a hanner o flynyddoedd. Wrth lwc dim ond y rhan isaf o'r goedwig ddioddefodd, ac mae coed preiffion yn dal i sefyll.

Yn Eco mis Mai, mae John Harvey yn dweud 'Rhedeg tua Coed y Cynant i chwarae ar ôl yr ysgol. Gwyddwn am bob modfedd ohono, pob coeden a chraig, pob llwybr, twll cwnigen a phob nyth aderyn.'

Ar ôl i'r peiriannau llifio'r coed wneud eu gwaith blêr, gadawyd y goedwig dderw yn llanast hollol. Hefyd malwyd y ffens a wahanai'r lle oddi wrth y lein bach – ac yr oedd honno yn un dwt.

Tynnwyd fy sylw at y malu gan Trefor Beech a Bill Lewis, a diolch iddynt am wneud hynny, mae'n bwysig iawn ein bod yn cadw golwg ar ein milltir sgwâr.

Ac felly y bu pethau tan y dyddiau diwethaf yma.

Rwan, yr ydym yn ddyledus



iawn i ddwy wraig ifanc a sylweddolodd mor bwysig oedd gwarchod Coed y Cynant, a dyna wnaeth Pat Skidmore y Cynant a Margery Wroe, Bryn Mair. Y nhw yw perchenogion newydd y coed.

Bu fandaliaid eraill o gwmpas y lle hefyd yn malu cafnau'r defaid ar dir Margery Wroe, ac mae ganddi ddisgrifiad manwl ar gael o'r llefnyd a'r ferch oedd hefo fo yn gwneud y dinistr.

Diolch yn fawr i Pat Skidmore a Margery Wroe.

Mary Vaughan Jones

TÎM PÊL-DROED YSGOL BRYNREFAIL



Annwyl Olygydd,

Rydw i newydd fod yn darllen rhifyn Chwefror o'r Eco a gweld erthygl Gracie Owen yn sôn am Bob Berwyn Roberts yn Vancouver.

Chwiliais a dod o hyd i'r llun yma o dîm ffwtbol Ysgol Brynrefail tua hanner canrif yn ôl neu fwy na hynny mae'n debyg. Mae Bob Berwyn yn y rhes flaenaf ar y dde. Roedd ganddo fop o wallt cyrliog cringocho a bob amser yn dwt ynddo'i hun ac yn 'outside right' ardderchog.

Rydw i wrth gwrs yn adnabod pob un yn y llun, ond mae chwech o leiaf rwy'n credu wedi'n gadael. A dyma gyfle i minnau anfon cofion at Gracie Owen ac at Bob Berwyn os

bydd yn sgwennu ato rhyw dro.

Diolch am yr Eco. Rydw i yn ei gael bob mis ers blynyddoedd drwy law fy nghyfaill R.D. Roberts (Bob Tan-y-graig ers talwm) yn awr yn byw yn Groeslon ac rydym yn llythyru'n rheolaidd.

Cofion gorau a phob llwyddiant.

Yn gywir iawn,

John Emrys Jones

Elidir

40 Cambrian Avenue

Vicar's Cross

Chester

LLYTHYR AGORED

At Etholwyr Gwyrfa 5 sef, Dinorwig, Gallt-y-foel, Deiniolen, Clwt-y-bont, Brynrefail, Penisarwaun, Llanrug, Tan-y-coed, Crawiau a Phontrug

Annwyl Gyfeillion,

Carwn ddiolch yn fawr iawn i chwi oll am eich cefnogaeth hael a'ch croeso cynnes tra bûm yn ymladd etholiad y Cyngor Sir yn ddiweddar.

Hefyd hoffwn ddiolch i nifer fawr ohonoch sy'n byw yn yr etholaeth arbennig hon, am eich parodrwydd i'm helpu yn ystod yr ymgyrch. Yr oedd eich cymorth yn ysgafnhau'r gwaith i mi. Diolch o galon.

Bu'n bleser cyfarfod â chwi unwaith eto a gwyddoch y gwnaf fy ngorau i'ch gwasanaethu am dymor arall.

Yn ddiffuant,
Pat Larsen,
Llygad yr Haul,
Penisarwaun.

Bistro 45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278
(Danny a Nerys Roberts)

Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w ddewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis.

Pryd gorau'r fro a mwy o le i'w fwyta

STORFA

Mace

John a Roberta
Griffith
Sgwâr
Llanrug
Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd,
llysiau a diodydd

Archebion at eich drws
Ffilmiau fideo £1 y noson

ATGOFION CYNNAR AM ARDAL Y WAENFAWR

(gan John Owen Harvey, Llangefni)

NEWID DDAETH

Bûm yn ymweld â'r hen ardal yn ddiweddar a chefais ryw deimlad rhyfedd fod y Waun annwyl wedi newid - er i mi fod wedi hel meddyliau cudd na wnâi hyn ddigwydd, a'i bod hi, Brenhines yr holl bentrefi, yn annewidiol. Yn wir gwelais dai newydd hardd lle cynt y byddai caeau gwyrdd, braf. Ac yn dychryn braidd o weld rhai eraill ar dir gwael lle byddwn i a fy ffrindiau yn mynd ymhell dros ein hesgidiau mewn dŵr wrth chwarae ers talwm.

Mewn gwirionedd, dechreuodd yr ardal newid pan ddaeth dyn o'r enw Mr. Butt gan weld ei gyfle i brynu hen fythynnod am cyn lleied â hanner can punt yr un. Cafodd ddewis mawr, gan fod llawer ohonynt o gwmpas ac ynghanol y pentref yn wag ers blynnyddoedd, a rhai bron yn adfeilion. Cafodd ddynion lleoli wneud yr atgyweirio gan eu troi yn llefydd i bobol fyw ynddynt - heb fod yn rhy foethus. Gwelsom amryw o deuluoedd Saesneg yn cyrraedd o drefi a dinasoedd i'r fro wledig. Daeth yr ardalwyr i'w hadnabod, a chofio eu henwau. Digwyddodd yr un peth mewn ardaloedd eraill tua'r un adeg, ac yn fy meddwl i dyna ddechrau y newid.

Tua'r un amser daeth newid i ni fel teulu hefyd; cafodd fy nhad dŷ yn perthyn i'r Cwmni rheilffordd y gweithiai iddynt - hynny ar ôl disgwyl blynnyddoedd. Dyna mam a fy chwiorydd yn symud, a minnau yn dewis aros yn y Waun i orffen fy addysg yn yr Ysgol Ramadeg. Yn y cyfamser rhaid oedd gwneud ymholiadau yma a thraw am waith ar ôl gadael yr ysgol. Nid oeddwn i eisieu gadael y Waun, dirion fan, ond fel arall y gwnaeth pethau droi allan.

Yn y blynnyddoedd cyn bod sôn am y Rhyfel dwytha, 'roedd mynd ar y rhan fwyaf o gyfarfodydd yr wythnos yn ein pentref ni. Ar y Sul byddai'r capeli yn cael cynulleidfaoedd sylweddol a'r Ysgolion Sul yn dal eu tir. Ar y chwe diwrnod arall byddai cyfarfod gweddi, seiat, noson y plant, cymdeithas lenyddol, cyfarfod canu a pharatoi am wahanol

arholiadau y Gymanfa neu Sirol - heb sôn am weithgareddau yr Urdd. Yn Eglwys y Plwyf yr oedd y gwahanol gyfarfodydd a Gwasanaethau yn cymryd lle yn rheolaidd, ac ambell noson ddifyr yn Neuadd yr Eglwys a adeiladwyd ger Pant Waun.

Heddiw mae Canolfan newydd hardd i'w gweld. Newid er gwell yw peth fel yna - cymorth i'r hen a'r ifanc.

Ers talwm, yn y capeli a'r tair festri y cynhaliwyd y cyngherddau oll, yr Eisteddfodau a'r Nosweithiau drama. Erbyn hyn mae llawer adeilad wedi dirywio ac ambell i gapel ac ysgoldy wedi cau am byth.

Mae rhyw sôn am ail redeg, rhan beth bynnag, o'r rheilffordd fach fynyddig gan ddechrau yn Nhref Porthmadog. Cofia pobol y Waun yr amser bywiog hwnnw pan fyddai'r trên bach yn dwad i'r orsaf yn rheolaidd gan gario llawer o ymwelwyr yn ystod yr haf a hefyd gario rhai peiriannau amaethyddol a nwyddau eraill. Deuai glo mewn wageni cryfion ar ddyrnodiau eraill. Mor wahanol yw hi heddiw gyda'r cledrau wedi cael eu codi a'u gwerthu, a'r gorsafodd bychain i gyd wedi mynd.

Colled yw fod yr Eisteddfod fawr a'i choron wedi peidio â bod - gan mor llwyddiannus fyddai, yn denu cystadleuwyr o bellter gwlad ac yn cyfrannu cymaint i'r ieuanc a'r hen. Cofiaf rai fel Bob Bala a'i lais dwfn yn canu y gân 'Niagra' a Henryd gyda'r unawd 'Y Marchog'. Dyna hefyd y cof am Gwaunferch a Llwynferch yn cystadlu ar yr adrodd. Llawer o rai tebyg, a ninnau wedi dwad i adnabod eu lleisiau a'u medr, yn

wir yr oedd cael mynd i'r rhagbrofion yn wledd. Ar y dydd Sadwrn tan oriau'r bore byddai cystadlu brwd, a rhaid oedd cofio am y plant a'r bobol ifanc fu wrthi ar y nos Wener, llond y llwyfan, o un pen i'r llall, yn fechgyn a genethod yn adrodd neu ganu. Ymddangos am y tro cynta a'r gynulleidfa yn rhoi pob gwrandawriad, gan guro eu dwylo, a'r plant bych o hynny ymlaen yn cystadlu pob cyfle gaent.

Atyniad i bobol y Waun a'r ardaloedd eraill fyddai y cyngherdd mawr uwchraddol yn y Pafiliwn o dan y teitl 'Gŵyl Fai Beulah', Caernarfon. Cefais fynd i rai ohonynt a chlywais enwogion fel Oda Slaboskya, Peter Dawson, Isobel Bayley a'r tenor enwog Ian van-der-Gut. Maent oll wedi mynd ac nid oes gŵyl fel yna mwy, na dim Pafiliwn chwaith. Colled fawr oedd gweld yr adeilad hwnnw yn cael ei dynnu i lawr wedi bod yn fan cynnal sawl Sasiwn, Arddangosfa a chyfarfod. Yn y gaeaf ar ddydd Sadwrn, pnawn a nos, byddai Mr. Tego yn cynnal Sioe fawr oddi fewn i'w furiau. Cof sydd gennyf o weld llawr yr adeilad anferth yn bobol a phlant yn mwynhau eu hunain ar y cerbydau bach a chlywed y ceffylau ffug yn troi a throi i fwsig organ bib.

Yno y gwelais Lloyd George yn siarad a'i lais yn cario yn berffaith glir i'r rhan bella oddi wrth y llwyfan heb unrhyw gorn siarad yn gymorth.

Tu ôl i bentref y Waunfawr ers talwm byddai gorsaf Marconi. Cofiw'n y polion uchel o haearn a'r gwifrau fel gwe pryf copyn, ac ar dywydd gwyntog byddai rhyw sŵn cwynfanus yn dod i'r clyw. Roedd hon yn orsaf bwysig gyda'r trosglwyddo, ac yn ddigon cryf i bontio'r holl ffordd i America. Nid oes yr un polyn i'w weld heddiw a dim ond ambell adeilad yn sefyll, un ohonynt wedi bod yn glwb nos preifat.

Tŷ o'r enw 'Bodafon' oedd man cyfarfod rhai o bobol Rhesdai Glynafon y funud y daeth y peiriant chwarae record yno. Un mawr yn troi gyda llaw ydoedd ond ar y pryd y mwyaf diweddar, ac yn ddodrefnyn hardd hefyd. Er mwyn i'r rhai oedd allan glywed yn well,

tynnwyd hi ymlaen i sefyll yn y drws agored. Dyna y pleser gawsom o gael gwrando ar yr unawd fythgofiadwy 'Hon yw fy Olwen i'.

Cofio ydwyf am un dydd Sul i mi fod yn cerdded i lawr i'r Dref gyda fy rhieni a llawer o'r trigolion am fod Pastor Jeffries yn cynnal gwasanaeth. Mewn pabell enfawr ar y cae pêl-droed. Nos Sul braf oedd hi yn digwydd bod ac wrth gerdded i lawr y gelltydd cofiaf edrych yn ôl a gweld pobol yn rhengoedd bron i ganol y ffordd. Ni feiddiai neb gerdded felly heddiw. Dyna sut y byddai dynion a merched ifanc yn cerdded trwy'r Waun ar nos Sadwrn yn fintai hapus a siaradus. Ar ôl rhyw deisen a diod cyn cychwyn, byddai yr hogiau yn cerdded heibio Cynant ac i fyny am Allt Coed Mawr i'w cartrefi, neu bellach efallai, i gyfeiriad y Foel neu Rosgadfan. Wna i byth anghofio y canu a ddeuai i'n clyw, harmoni bendigedig gan fod ganddynt leisiau gwerth chweil. Ein rhan ni yn y siop oedd gwneud yn siŵr fod digon o deisenau a bocs poteli yn llawn. Wnaeth neb feddwi ar ôl yfed potel o siop Miss Owen.

Sŵn y morthwyl ar yr engan oedd y miwsig arall, ac yn dynfa i ni hogiau ysgol, wrth gerdded draw i Groes y Waun. Mr. Robert Williams y Gof oedd y dyn wnâi ffrindiau â'r bechgyn - dim ond iddynt fod yn hogia da tra yn yr Efail. Cael cynorthwyo gyda'r fegin fawr oedd un o'r pleserau, a throi yr olwyn gwneud min ar y fwyell neu lafn oedd y llall.

Mor braf fyddai cael mynd i gae yr ysgol ar noson braf yn yr haf a gwrando ar y Seindorf o dan arweiniad Mr. David Trefor. Fe fyddai'r aelodau yn eistedd ar gadeiriau ac ambell i fachgen yn cael dal y darnau cerddoriaeth o'u blaen. Heddiw, nid oes modd clywed miwsig y cyrn arian, mae'r Seindorf wedi peidio â bod.

**Cefnogwch ein
Hysbysebwy'r**

**CARPEDI
GLÂN!**

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

**TEGID
PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi**

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

BEDYDD - Bore Sul, Ebrill 28 yn Eglwys Sant Gabriel gyda'r Rheithor Y Parch Aled Jones Williams yn gwasanaethu bedyddiwyd Carys Ann, merch fach Mr a Mrs Eifion Jones, Glan-y-don.

LLONGYFARCHION a phob dymuniad da i Miss Annie Parry, Craig-y-don ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 ar Fai 30.

DYMUNIADAU gorau a phob hapusrwydd i Mr a Mrs W. Jones, gynt o 7 Dôl Afon, yn eu cartref newydd, Tŷ Capel Libanus, Deiniolen.

ENNILL GWOBWR - Rhoddwyd copi o arfbais y cafwyd hyd iddi mewn hen arfdy yn y coleg yn wobwr gyntaf i ddwy am wneud cacen mewn cystadleuaeth i ddathlu canmlwyddiant Coleg y Brifysgol, Bangor. Fe gymerodd Anne Owen o Fangor a Sian Hughes, 2 Bryn Gro, Cwm-y-glo bymtheg awr i wneud y gacen. Bydd y gacen, ynghyd â phedair arall, yn cael eu rhannu mewn te parti i'r staff ym mis Mehefin.



CYMANFA YSGOLION SUL - Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul dosbarth Cwm-y-glo yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen ddydd Sul, Ebrill 28. Llywydd y prynhawn, y Parch Trefor Lewis, gymerodd y rhan arweiniol. Cafwyd cyfraniad ar ffurf drama ar hanes Joseff, Moses, Noa a Daniel gan blant Ysgolion Sul Ebeneser, Bosrah, Nant Padarn a Jerusalem. Llywydd yr hwyr oedd y Parch Trefor Lewis a chymerwyd y rhan arweiniol gan barti ieuencid Eglwys Ebeneser. Cafwyd eitemau gan bartion ieuencid a chymysg Eglwys Ebeneser gyda Miss J. Parc Jones wrth yr organ a datganiad ar yr offeryn chwyth gan Mr Gwyn Williams, Eglwys Jerusalem. Yr arweinydd oedd Mrs Alwena Williams, gynt o Ddeiniolen, a'r

organyddion Mr John Jones a Mr Robert Lloyd.

CLWB POBOL Y CWM - Gyda Mrs Price, New Street yn galw, mwynhaodd yr aelodau sesiwn o Bingo yn eu cyfarfod ddydd lau, Mai 2. Rhoddwyd y gwobrau gan yr aelodau eu hunain. Diolchodd y llywydd i Mrs Price am drefnu a hefyd rhoi'r raffl a enillwyd gan Mrs J. Parry. Rhoddwyd y te gan Mrs E. Jones, Seiont House a Miss E. Davies, Noddfa. Yn y cyfarfod i derfynu'r tymor ar Fai 16 cafwyd cwis wedi'i drefnu gan Mr R.H. Parry, a darlenniadau o lyfrau diweddar o'r wasg gan Mr Llew Hughes, a storïau allan o fisolyn gan Mr R. Roberts. Rhoddwyd y te gan Miss E. Hughes a Mrs E. Hughes a'r raffl gan Mrs A. Hughes, Bryn, ac fe'i henillwyd gan Mrs Jones, Seiont House.

Bydd gwibdaith flynyddol y clwb ddydd lau, Mehefin 6 yn cychwyn am 10 o'r gloch y bore.

NEWYDDION O'R YSGOL

CLWB LLYFRAU SBONDONICS: Bu aelodau Clwb Sbondonics yn ysgol Llanrug yn ddiweddar yn gweld cyflwyniad gan y digrifwr Gari Williams. Dramadeiddiwyd stori 'Siôn ap Siencyn' a bu Kelvin Houston yn helpu gyda'r 'actio'. Cafwyd prynhawn arbennig o ddiddorol a mwynhawyd yr ymweliad yn fawr.

'SGWRS 'DA SLIM': Daeth Mr Malcolm Williams i'r ysgol yn ddiweddar. Cynhyrwyd gyda'r BBC ym Mangor yw Mr Williams, neu 'Slim' fel y caiff ei adnabod gan bawb. Bu'n recordio plant yr Adran lau i gyd ar gyfer rhaglen sydd i'w darlledu rywdro yn ystod yr haf.

CWMNI'R FRÂN WEN: Enw cwmni Theatr Mewn Addysg Gwynedd yw 'Cwmni'r Frân Wen'. Bu'r cwmni yng Nghwm-y-glo ddwywaith o'r blaen, ond y babanod oedd yn cael gweld y perfformiad y tro hwn, cyflwyniad o'r enw 'Bwrlwm Byw'. Roedd yn berfformiad arbennig iawn a mwynhaodd yr holl blant, yn cynnwys plant Penisarwaun oedd wedi ymuno â ni, y prynhawn yn fawr.

CYMORTH I'R HENOED: Daeth cynrychiolydd o elusen 'Cymorth i'r Henoed' i'r ysgol i roi cyflwyniad i'r plant hynaf. Yn dilyn hynny, noddwyd y plant gan drigolion y pentref am ateb cwestiynau ar wybodaeth gyffredinol am y byd. Casglwyd dros £160 i'r achos teilwng hwn.

GALA NOFIO: Cynhaliwyd Gala Nofio'r Cylch yng Nghanolfan Hamdden Arfon yn ystod y mis ac er

YSGOL CWM-Y-GLO - 1939



"Cwm-y-glo Mixed School" yw'r pennawd ar y llun uchod a anfonwyd gan Tom Owen, 3 Maes Gerddi, Cwm-y-glo.

bod amryw'n wael ar y dydd, bu tîm lawr yng Ngaernarfon yn cynrychioli'r ysgol. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu.

PÊL-DROED: Daeth tîm pêl-droed 'llachar' Penisarwaun i Gwm-y-glo'n ddiweddar i geisio dallu hogia'r Cwm eto! Cafwyd gêm galed iawn a'r sgôr ar y diwedd oedd 4-0, i Benisarwaun. Roedd y 'crysau' wedi gwneud eu

gwaith unwaith yn rhagor!

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

CLWB CYMRAEG CAERDYDD Clwb Ifor Bach

Erbyn hyn mae Clwb Ifor Bach, Clwb Cymraeg Caerdydd, wedi ennill ei le fel rhan o'r ymgyrch i hybu Cymreictod.

Bydd darllenwyr sawl papur bro wedi bwrw i mewn i'r Clwb wrth ymweld â'r brifddinas adeg gêm rygbi ryngwladol neu rywbyrd arall. Mae gwrandawyr Radio Cymru a gwylwyr S4C yn gyfarwydd â chlywed hysbysebion am y llw gweithgareddau a gynhelir yn y Clwb bob wythnos.

Mae'r Clwb yn cynnal amrywiaeth eang o

weithgareddau megis tri dosbarth Cymraeg, dosbarthiadau Gwyddeleg a Llydaweg, cymdeithasau gwyddonol a hanesyddol, dau dîm pêl-droed, timau criced, dartiau a snwcer yn ogystal ag adloniant cerddorol bob wythnos.

Yn sgîl y datblygiadau hyn, mae'r Clwb yn hysbysebu am reolwr neu reolwraig ac fe groesewir ymholiadau oddi wrth rai sydd â diddordeb drwy gysylltu â'r Clwb: Clwb Ifor Bach, 13 Heol Womanby, Caerdydd (ffôn: 32199 neu 497414).

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFLE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O. YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD
43 glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Busnes newydd ym
Mro'r Eco...

EMYR JONES

PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI

GWAITH
INSIWLEIDDIO
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

LLANBERIS

Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)

UNDEB Y MAMAU - Cynhaliwyd gwasanaeth Mai 7 yn Neuadd yr Eglwys dan arweiniad Mrs Betty Humphreys. Daeth cynulliad da iawn ynghyd i Ŵyl Undeb y Mamau a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Padarn ar Fai 14.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod Mis Ebrill yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. Cafwyd arwerthiant 'Moes a Phryn' gyda'r elw yn cael ei rannu rhwng Maldives Project, Produce Show a'r Sefydliad. Y gwestwragedd oedd Mrs Netta Jones, Mrs A.B. Jones, Mrs Hannah Jones a Mrs Arfon Jones. Diolchwyd iddynt gan Mrs Jan Davies a Mrs Dilys Jones. Enillwyr y raffl oedd Mrs Glenys Jones, Mrs Jan Davies, Miss Kathleen Pritchard a Mrs Mary Jackson. Cyn gorffen y noson mwynhawyd cwis dan ofal Mrs Hannah Jones.

YN YR YSBYTY - Mae Dion, mab bychan Maldwyn ac Annwen Hughes, Rallt Goch, Ceunant yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan iddo.

CROESO ADREF - Deallwn fod amryw wedi dod adref o'r ysbyty. Dymunwn adferiad llwyr yn fuan iawn iddynt oll: Lyn Jones, Dôl Elidir; Edward Rogers, 30 Stryd Newton; Mr Hugh Alun Roberts, Maes Padarn; Mr J.S. Thorne, 60 Maes Padarn; Mr John H. Hughes, Tan y Clogwyn. Ein cofion atoch ac at bawb sy'n dioddef o unrhyw anhwylder.

LLONGYFARCHIAU i Steven Thomas, 89 Maes Padarn ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Fai 5. Hefyd, Judith Wyn Jones, Dakota ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Fai 13, ac Arwel Hughes, 1 Stryd lancia ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Fai 20.

LLWYDDIANT CERDDOROL - Dyna ddaeth i ran Alison Edwards, 93 Maes Padarn yn ddiweddar pan fu'n llwyddiannus mewn Arholiad Piano Gradd 7. Ein llongyfarchion iddi.

MARWOLAETH - Mrs Maggie Price. Bu farw Mrs Maggie Price, 8 Stryd Siarlot ar Ebrill 20 yn Ysbyty Gwynedd. Bu Maggie yn wael ei hiechyd ers rhai misoedd a threuliodd rai misoedd yng Nghartref Bryn Seion, Llanrwst. Cafwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Amlogfa Bangor ar Ebrill 24 a chladdwyd ei llwch ym Mynwent Nant Peris. Roedd Maggie wedi ei geni a'i magu yn Llanberis, yn ferch i Tomos a Jane Hughes - Tomos Hughes y Goffel yr adwaenid ei thad gan y pentrefwyr.

Addysgwyd hi yn Ysgol Brynrefail lle roedd ganddi ddiddordeb mawr mewn hoci. Cyn iddi golli ei chlyw bu'n aelod ffyddlon o Gapel Gorffwysfa. Ei phrif ddiddordebau oedd darllen a cherdded. Bu'n ysgrifenyddes i Glwb yr Henoed am rai blyneddau. Roedd gan Maggie bersonoliaeth radlon a hapus ac roedd bob amser yn barod ei chymwynas. Cydymdeimlwn gyda'i gweddw Tomos Ifor, ei merch Ruby, ei mab yng nghyfraith Merfyn a'i hwyrion Geraint a Gwyn.

DIOLCH - Dymuna Mr Tom Ifor Price, 8 Stryd Siarlot a Ruby, Llanrwst ddatgan eu diolchgarwch am y cydymdeimlad dwys a'r llu o gardiau a llythyrau a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam annwyl. Diolch hefyd am yr arian a dderbyniwyd tuag at Gartref Bryn Seion, Llanrwst.

CYDYMDEIMLO - Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf ag Eric, Betty, Jennie May, Gwyneth, John Raymond a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli chwaer, Pris (Miss Priscilla Parry) 63 Maes Padarn, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Fai 2 yn 70 oed.

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs Delia May Parry, Plas Tirion ar golli ei chwaer, Gwyneth Arfon. Un o ferched y pentref ydoedd Gwyneth, merch i'r diweddar Mr a Mrs Owen Jonah Owen, un o deuluoedd hynaf y pentref. Ymgartrefodd gyda'i theulu sawl blwyddyn yn ôl ym Morfa Nefyn. Cydymdeimlwn hefyd â Mr Hugh Roberts ei phriod, a'i dwy ferch, Janice a Helen a'u teuluoedd.

Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs Arfon Jones, Derlwyn ar golli ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Lizzie Williams yn y Groeslon.

TRIP AR Y TRÊN BACH - Ar Fai 9 mwynhaodd teulu Plas Pengwaith drip ar lein fach Llyn Padarn. Wedi'r daith roedd paned a chacen yn eu disgwyl yng nghaffi'r stesion. Cludwyd hwy yn rhad ac am ddim gan fws KMP. Dymuna Cwmni Rheilffordd y Llyn ddiolch yn fawr iawn i KMP am eu cludo a hefyd am gludo plant ysgol Dolbadarn yn gynharach yn y mis. Rwy'n siŵr fod gwerthfawrogiad y pentrefwyr yn fawr iawn o garedigrwydd Cwmni'r Rheilffordd a KMP am roi diwrnod mor bleserus i'r henoed ac i blant yr ysgol gynradd. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCHIAU - Dymuna David a June, gynt o 88 Maes Padarn, ond nawr o Sling, Tregarth, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau ac anrhegion a swm o arian a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Mari.

CARNIFAL '85 - Cynhelir Helfa Drysor ar droed i barau ddydd Sadwrn, Mehefin 8. Plant Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Brynrefail. I gychwyn o Angorfa, Stryd y Ffynnon am 10 am. Tâl: 20c yr un. Gwobrau i'r goreuon.



CRONFA TRYCHINEB BRADFORD - Os hoffech gyfrannu tuag at y gronfa anghenus yma, gallwch wneud hynny yn y Clinic.

Y CWMNI DRAMA - Cynhelir noson o 'Bingo a Bwyd' yng Ngwesty'r Gwynedd, nos Wener, Mehefin 7 am 7.30. Pris y bwyd yw £1.50. Rhowch eich enwau i Mrs Carys Hughes, Mrs Mair Lloyd Roberts neu un o aelodau'r Cwmni. Cofiwch y cyntaf i'r felin gaiff falu.

Nos Wener, Mehefin 14 bydd y Cwmni yn perfformio 'Chwalu'r Nyth' yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. Pris mynediad: oedolion £1, plant 50c.

Mae'r hen bapurau newydd a hen gylchgronau yn llifo i mewn. Cofiwch eu cadw inni. Mae'n dyled yn fawr iawn i blant yr ysgol gynradd am eu casglu. Daliwch ati yr hen blant; rydym yn ddiolchgar iawn.

CERDDORION IEUANC CYMRU - Mae'r pentref yn falch iawn o Rhian Owen, 15 Stryd Siarlot, sydd ar hyn o bryd yn fyfyrwraig blwyddyn gyntaf yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd. Mae'n brysur yn gwneud enw iddi i hun fel cantores ddawnus gyda dyfodol addawol iawn, ac yn sgîl hynny yn dod â chlod i'w phentref. Ychydig fisoedd yn ôl dewiswyd hi o'r holl fyfyrwyr yn unawdydd yn 'St John Passion' gan J.S. Bach a berfformiwyd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Yn awr, dewiswyd hi gan y BBC i gymryd rhan yn y rhaglen 'Cerddorion Ieuanc Cymru'. Bydd yn canu amrywiaeth o ganeuon. Cewch ei chlywed bawn Dydd Sul, Mehefin 2 am 3.20 ar Radio Cymru. Cofiwch y dyddiad. Ein

Llun y plant tu allan i Angorfa cyn cychwyn yr Helfa Drysor ym Mehefin '84. Yr enillwyr bryd hynny oedd: Ysgol Dolbadarn - Sharon Roberts ac Einir Thomas; Ysgol Brynrefail - Paul Roberts a Jason Roberts.

llongyfarchion diffuant i Rhian a phob dymuniad da iddi.

BYD Y BÊL - Llongyfarchion i Colin Saynor ar gael ei ddewis i fynd i Stoke am brawf pêl-droed ddydd Sul, Mai 19. Mae eisoes wedi bod am wythnos yng Nghlwb Bolton. Pob lwc i Colin yn y dyfodol.

YSGOL DOLBADARN
CLWB SBONDONICS - Dydd Mawrth, Mai 14 mwynhaodd aelodau Clwb Sbondonics bnawn difyr yn Ysgol Gynradd Llanrug lle roedd aelodau eraill o ysgolion Llanrug, Cwm-y-glo, Deiniolen a'r Felinheli wedi ymgynnull ynghyd. Cawsant eu diddori gan Gari Williams y difyrrwr.

YR YMGRYCH LYFRAU - Erbyn hyn mae'r archebion olaf wedi mynd i mewn, a'r ymgyrch wedi dod i ben. Rydym yn falch o ddweud fod 391 o lyfrau wedi cael eu gwerthu, sef gwerth £520.75. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i chwi am eich cefnogaeth a'ch parodrwydd bob amser.

CROESO ADREF - Da iawn yw deall fod ein prifathro wedi dychwelyd adref ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. Estynnwn ein dymuniadau am lwyr wellhad ichwi, Mr Hughes, a gobeithiwn y byddwch yn ein mysg eto cyn bo hir. Yn absenoldeb Mr Hughes mae Mr Selwyn Pritchard, Dirprwy Bennaeth, yn Bennaeth dros dro.

Dymunwn adferiad buan i Miss Marion Davies, athrawes yn Adran y Babanod.

LLENWI BWLCH - Croesawn Mrs Marnell Owen i'n plith. Bu Mrs Owen yn llanw bwllch yma o'r blaen, ond y tro hwn athrawes ar Safon 4 ydyw.

**AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU**

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN

LLANBERIS 870793

**B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO**

GWYNETH ROBERTS

(Siop E. Wilson Hughes gynt)

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

**FFÔN:
LLANBERIS 871470**

**Contractau
Weirio Tai**

**Cawodydd Trydan
ac ati**

LLANBERIS

(Parhad)

Da yw deall fod Edward Rogers wedi dychwelyd adref o'r ysbyty. Cipiwyd ef i mewn i dynnu ei bendics.

Hoffai'r Prifathro, Pennaeth Dros Dro a'r Staff ddiolch yn fawr iawn i Bwyllgor y Carnifal am eu rhodd anrhydeddus o £50. Diolch yn fawr.

GEMAU - Pêl Rwyd. Enillodd Tim yr Ysgol yn erbyn Ysgol Maesincla o 15 pwynt i 12.

Pêl-droed. Gêm gyfartal a gafwyd ar gael pêl-droed Llanberis rhwng Ysgol Dolbadarn ac Ysgol y Gelli, Caernarfon. Mewn gêm gyffrous y sgorwyr dros Ddolbadarn oedd Kevin Edwards a Cai Williams. Hoffai'r ysgol ddiolch i reolwyr Clwb Pêl-droed Llanberis am eu parodrwydd i rannu eu cyfleusterau gyda'r ysgol.

YSGOL FEITHRIN - Yn ystod Wythnos Wyl Mudiad Ysgolion Meithrin, Mai 5 i 11, cynhaliwyd Noson Goffi ac Arwerthiant yn y Ganolfan er budd y Cylch Meithrin lleol. Derbyniwyd tua £100 ar y noson. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd i wneud y noson yn llwyddiant. Enillwyr y Raffl oedd Janet Owen, Debbie Hughes, Vivian Thomas, Nellie Morris, Mrs Jones Dôl Elidir, a Mrs Dilys Phillips.

Yn ddiweddar fe gymerodd Mr Dennis Carr, Maes Padarn ran ym Marathon Llundain a gorffennodd y cwrs mewn amser da iawn sef 3 awr 17 munud. Bu'n garedig iawn yn gadael i'r Cylch Meithrin gasglu noddwyr iddo. Hoffai'r cylch ddiolch yn fawr iawn iddo ac i bawb a gyfrannodd.

DIOLCH - Dymuna Steven, 89 Maes

Padarn ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Arwel, 1 Stryd lancia ddiolch o galon i'w ffrindiau a pherthnasau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

PRIODAS - Priodas Eleri ac Eilir, Peris View oedd y briodas gyntaf i'r Parch Alun Hawkins ers iddo ddod yn Rheithor y Plwyf. Nid yn unig hynny, ond dyma'r briodas gyntaf erioed iddo'i gweinyddu yn Gymraeg. Ein llongyfarchion iddo am ddysgu'r iaith mor rhugl.

EGLWYS SANT PADARN - Dathlu canmlwyddiant 1885-1985. Bydd gwasanaeth arbennig nos Lun, Mehefin 24 am 7 o'r gloch. Daw mwyr o fanylion ac adroddiad am y dathlu maes o law.

CARNIFAL A RAS YR WYDDFA - Mae'n dechrau prysuro gyda gweithgareddau'r Carnifal a Ras yr Wyddfa. Fel y gwelsoch yn y rhifyn diwethaf mae'r Frenhines a'i Llys wedi eu dewis ac ni fydd y rhaglen yn hir cyn dod allan. Mae'r elw eleni yn mynd i bwrcasu bws addas i Blas Pengwaith ac mae'r pwyllgor yn ffyddiog y bydd cefnogaeth dda i'r apêl yma. Os oes gan rywun ryw awgrym neu syniad a allai fod o fudd gadewch i unrhyw un o'r pwyllgor wybod.

Mae Ras yr Wyddfa eleni yn ddeg oed ac wedi mynd ymlaen o nerth i nerth ac erbyn heddiw y mae wedi ei chofrestru'n swyddogol gan y Tri A fel ras ryngwladol. Mae gobaith eleni y bydd rhedwyr o'r Eidal, Swisdir, Iwerddon, Yr Alban, Yr Iseldiroedd, Ffrainc a Lloegr. Gwelwch felly bod rhagolygon am ddiwrnod da. Rhaid i bawb sydd am redeg gofrestru cyn Mehefin 8. Ceir ffurflenni yn Siop Joe Brown neu Fanc TSB, Caernarfon.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

TUAG AT ETHIOPIA - Fel canlyniad i ymgyrch frwdfrydig gan blant ysgol Sul Capel yr Annibynwyr Bethel, llwyddwyd i gasglu'r swm anrhydeddus o £150 tuag at yr apêl newyn yn Ethiopia. Noddwyd y plant gan lu o berthnasau a chyfeillion i ddysgu penillion a dymuna athrawon yr ysgol Sul ddiolch o galon i bawb a gefnogodd y plant mor hael. Anfonir y swm hwn ynghyd â chyfraniadau teilwng a dderbyniwyd gan aelodau unigol o'r capel yn ddiymdroi i'r gronfa.

CLWB FFERMWYR IEUANC - Yn ystod y mis diwethaf cynhaliwyd nifer o gystadlaethau gan Ffederasiwn Eryri a bu'r aelodau yn cymryd rhan ynddynt.

Pêl-droed dan 18. Colli fu'r hanes yn erbyn Ysbyty Ifan ar ôl penaltis, 4-2. Hoci Merched. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ym Mhwllheli. Rhiw oedd eu gwrthwynebwyr a cholli fu eu hanes o un gôl i ddim. Pêl Rwyd Merched. Enillwyd y gêm gyntaf yn erbyn Clwb Llanybi o 2 i 1. Yna cafwyd cweir iawn gan Ddyffryn Nantlle o 11 i 0. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Pêl-droed Merched. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar gaeau Rygbi Caernarfon. Collwyd y gêm o 2 gôl i ddim yn erbyn Clwb Godre'r Eifl. Barnu Gwartheg Duon. Huw Morgan ac Eurwyn Jones fu'n cystadlu ar ran y clwb. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Fferm Glanrhyd, Pentre Uchaf. Gwnaeth y ddau yn dda iawn drwy ddod yn ail fel tîm yn yr adran i rai dan 18 oed. Barnu Gwartheg Godro. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar fferm Tŷ Newydd, Abersoch. Morfudd Williams oedd yr unig un a aeth i gynrychioli'r clwb a gwnaeth yn ardderchog drwy ddod yn ail yn yr adran i rai dan 26 oed.

Cystadleuaeth Morwyn Laeth Eryri. Cynhaliwyd y gystadleuaeth mewn dawns a gynhaliwyd yng Ngwesty Plas Gwyn, Pentrefelin, Cricieth, nos Wener, Ebrill 19. Morfudd Williams, Dinas Farm, Bontnewydd oedd yr unig un i gystadlu ar ran y clwb ac fe enillodd y gystadleuaeth ac aeth ymlaen i Fae Colwyn i gynrychioli Eryri yng Nghystadleuaeth Brenhines Laeth Gogledd Cymru a gynhaliwyd yng Ngwesty 70 ar Fai 8.

CYDYMDEIMLO - Yn ddiweddar ym Mhlas Pengwaith, Llanberis bu farw Miss H. Lloyd Jones, Llys lfor gynt. Athrawes yn Ysgol y Santes Fair, Bangor oedd Miss Jones cyn ymddeol rai blyneddau yn ôl. Bu hefyd yn aelod ffyddlon ac athrawes Ysgol Sul ym Methel am flynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Ddydd Gwener, Ebrill 26 yn Ysbyty Gwynedd ar ôl gwaeldd hir bu farw Mr John Williams, Ty'n Ronnen. Roedd Mr Williams yn gymeriad hoffus ac yn arddwr arbennig a'r ardd yn werth ei gweld bob amser. Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Williams a'r teulu yn eu profedigaeth.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd cyfarfod Mai yn yr ysgol nos Fercher, Mai 8, gyda Mrs Glenys Griffith, Llwyn Eithin yn llywyddu. Y wraig wadd oedd Mrs Antoinette Hughes, Coleg Glynllifon, a chafwyd ganddi arddangosiad o baratoi bwydydd ar gyfer tymor yr haf, gan ddefnyddio llysiau a ffrwythau amrwd. Rhoddwyd y bwydydd yn wobrau raffl a bu deg aelod yn lwcus o'u hennill. Estynnwyd cydymdeimlad â Mrs Mary Williams, Awelon a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar. Dymunwyd yn dda i Mrs O. Evans, Parciau Rhos ar ei phen-blwydd yn 80

oed. Bu rhai o'r aelodau o amgylch y pentref yn ddiweddar yn casglu tuag at Gartrefi Eithinog Cheshire a chaed gwybod fod £51.51 wedi ei gasglu. Y gwestwragedd oedd Miss K. Morris, Mrs M. Hughes a Mrs C. Roberts, Penrhos,, a ddiolchwyd gan Mrs Lynwen Morris.

Trefnir Taith Ddirgel ar Fehefin 12 a gofynnir i bawb sydd am fynd roi eu henwau a'r arian i un o'r swyddogion. Yr oedd y cyfarfod hwn hefyd yn gyfarfod blynyddol y gangen, ac etholwyd y swyddogion canlynol am '85-'86: Llywydd, Mrs Mair Price, 5 Tan-y-ffordd; Is-lywydd, Mrs Anne Elis, Cilgerran; Ysgrifennydd, Mrs Nora Parry, 11 Tan-y-buarth; Is-ysgrifennydd, Mrs Betty Owen, Crud-yr-awel; Trysorydd, Mrs Lynwen Morris, Llys Myfyr; Is-drysorydd, Mrs Eirlys Sharpe, Ael-y-bryn; Pwyllgor, Mrs Eryl Roberts, Mrs Gwyneth Jones, Mrs A.E. Williams, Mrs M. Griffith, Mrs Eirlys Williams a Mrs Glenys Griffiths.

Nos Wener, Mai 17 roedd y gangen yn cymryd rhan ym Miri Mai a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail. Cafwyd noson ddiffr iawn gyda'r gangen yn gwneud gwaith canmoladwy iawn.

YR URDD - Erbyn yt daw'r Eco o'r wasg byddwn yn gwybod hynt y côr yn yr Eisteddfod. Beth bynnag fydd y canlyniad, mae'r pentref wedi dangos eu cefnogaeth gyda'u dymuniadau da a'u rhoddion hael tuag at y gronfa i fynd â'r Côr i Gaerdydd. Derbyniwyd rhoddion o £106 gan fudiadau ac unigolion a gwnaed elw o £160 yn y noson goffi a gynhaliwyd yn y Neuadd yn ddiweddar. Dymuna pwyllgor yr Urdd ddiolch i bawb am eu dymuniadau da a'u rhoddion hael.

LLONGYFARCHIADAU i Helen M. Owen, Camlan ar ei phen-blwydd yn 18 oed ar Fai 1af.

DATHLU DIWEDD Y RHYFEL




Diolch i Mrs Eirian Jones am gael benthyg y llun.



Diolch i Mrs Eirian Jones, Stryd Newydd, Deiniolen (o Fethel gynt) am gael benthyg y llun. Nid yw Mrs Jones yn cofio pa flwyddyn y'i tynnwyd.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

GWILYM O.
ROBERTS

WEIRGLODD
GOCH
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871407

DOSBARTHWR
LLEFRITH

Trwy ardal
ECO'R WYDDFA

Hefyd TATWS, WYAU
ac ati at eich drws

CYMANFA YSGOLION SUL DOSBARTH PADARN

Cynhaliwyd y Gymanfa ddydd Sul, Mai 5 yng Nghapel Disgwylfa, Deiniolen. Arweinydd y Gân oedd Mr John Jones, Deiniolen. Arweinydd y prynhawn oedd Mrs Elan Williams, Disgwylfa ac arweinydd yr hwyr oedd Mr Alwyn Owen, Capel Coch. Yn ystod cyfarfod y prynhawn cafwyd annerchiad gan Miss Delyth Oswy, Swyddog Datblygu'r Ysgol Sul ac yn ystod cyfarfod yr hwyr cafwyd eitemau gan aelodau Ysgol Sul Disgwylfa. Yr organydd oedd Mrs Gina Keller, Disgwylfa. Dyma'r canlyniadau.

Arholiad Llafar. Dan 4: Gethin Williams (Cefnywaun), Stephen Keller (Disgwylfa), Kelly Louise Roberts (Rehoboth), Gerallt Hughes, Gwynfor Jones, Llinos Mair Williams, Laura Millican, Anwen Thomas, Catrin Roberts, Meilyr Emrys, Dewi Griffiths, Gareth Jones (Cysegr).

Dan 5: 1, Bethan Williams (Disgwylfa), Dafydd Tomos Jones, Dyfan Pys Elis a Rhys Lloyd Jones (Cysegr); 2 Rhian Davies (Brynrefail), 3 Iola Wyn Davies (Brynrefail), a Richard Charles Parry (Cysegr), 4 Elin Angharad Roberts (Cysegr), 5 Elfed John Williams (Disgwylfa).

Dan 6: 1 Beverly Roberts (Rehoboth), Carwyn John Morris (Cysegr), 2 Rhodri Roberts (Cysegr), 3 Iwan Harding, Elinor Gray Williams, Sarah Pepper (Capel Coch), Julie Ann Roberts, Elen Salisbury, Owain Arfon Jones (Cysegr), Aeron Jones (Disgwylfa).

Dan 7: 1 Catrin Angharad Hughes a Gwenan Elis (Cysegr), 2 Manon Williams (Capel Coch), 3 Robert Wyn Owen (Disgwylfa).

Dan 8: 1 Dafydd E Williams (Brynrefail), Sonia Lynne Roberts, Llinos Angharad Morris a Llinos Ann Roberts (Cysegr), 2 Euros Williams (Cefnywaun), 3 Elena Williams (Disgwylfa), Rhian Thomas (Capel Coch), 4 Macai Owen (Disgwylfa).

Dan 9: 1 Nicola Houston, Marion Jones, Owain Gwyn (Brynrefail), Leah Millican, Julie Ann Jones, Menna Dauncey Williams, Arfon Wyn Roberts (Cysegr), Catrin Keller (Disgwylfa), Eilir Williams (Cefnywaun), 2 Tacinta Kisalu (Capel Coch).

Dan 10: 1 Aled Griffiths, Sioned Meleri Owen, Ruth Wyn Parry, Eysyllt Môn Jones, Bethan Jones (Cysegr), Gwawr Pierce Williams (Cefnywaun), 2 Manon Elis (Cysegr), 3 Llinos Jones (Rehoboth), 4 John Evans (Brynrefail).

Dan 11: 1 Eira Wyn Evans (Brynrefail), Amanda Williams, Ian Jones, Ceryl Roberts (Cysegr), Jean Williams, Marek Wyn Sutherland, June Williams (Cefnywaun), Glenda Jones (Capel Coch), Alan Wyn Pritchard, Karen Ann Price (Rehoboth), 2 Amelia Jones (Disgwylfa), 3 Melisa Owen (Disgwylfa).

Dan 12: 1 Dylan Wyn Williams (Cefnywaun), Iestyn Roberts (Rehoboth), 2 Gwen Jones (Cysegr), Paula Ellen Walters (Brynrefail), 3 Maria Evans, Catrin Gwyn (Brynrefail), Iwan Williams (Cefnywaun).

Dan 13: 1 Dyfrig Wyn Lewis (Disgwylfa), Aled Lewis Jones, Elwyn Hope Parry, Carys Owen (Cysegr), 2 Einir Thomas (Capel Coch), Angharad Elis, Eirlys Rhianon Jones (Cysegr).

Dan 14: 1 Meinir Williams (Cysegr), Caron Jones (Brynrefail), 2 Glenda Walters, Einir Gwyn, Joanne Evans (Brynrefail).

Dan 15: 1 Alwen Jones (Brynrefail), 2 Jacqueline Roberts (Brynrefail).

Dan 50: Olwen Bryn Roberts (Dinorwig), Miss E.E. Griffiths (Cefnywaun), Mrs Nora Parry, Myfanwy Jones (Cysegr).

Cydarrodd dan 9: 1 Parti Menna, Parti Llinos Ann, Parti Carwyn (Cysegr).

Cydarrodd dan 11: 1 Parti Aled (Cysegr).

Cydarrodd dan 16: 1 Parti Brynrefail.

Arholiad Ysgrifenedig

Dan 9: 1 Catrin Lowri Keller (Disgwylfa), 2 Nicola Houston (Brynrefail), Barry J. Thomas (Disgwylfa), 3 Owain Gwyn (Brynrefail), Eilir Wyn Williams (Cefnywaun).

Dan 11: 1 Marek Wyn Sutherland (Cefnywaun), 2 Lyn Davies, Glenda Jones (Capel Coch), 3 Llinos Haf Jones (Rehoboth), 4 Eira Wyn Evans (Brynrefail), Alan Wyn Pritchard, Karen Ann Price (Rehoboth), 5 Gwawr Pierce Williams (Cefnywaun), 6 Anita Jones, Melisa Owen (Disgwylfa).

Dan 14: 1 Nia Gwyn Griffiths (Capel Coch), Glenda Walters (Brynrefail), 2 Joanne Mai Evans (Brynrefail), 3 Sian Gwyn Griffiths (Capel Coch), Sian Pritchard (Rehoboth), 4 Iestyn Roberts (Rehoboth), 5 Maria Evans, Paula Walters (Brynrefail).

Carai pwyllgor y Gymanfa ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu mewn unrhyw fodd yn gyfrifol am helpu i wneud y Gymanfa'n llwyddiant. Diolch arbennig i aelodau Disgwylfa am eu croeso ac am ddarparu te ar gyfer pawb.

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

LLONGYFARCHIADAU calonnog i Sian Griffiths, Fron, ar ei llwyddiant gyda theilyngdod yn Arholiad Gradd 1 o dan nawdd Ysgolion Cerdd Brenhinol Llundain.

DIOLCH - Dymuna Carol Ann Jones, 7 Green Terrace ddiolch yn garedig i'r teulu a ffrindiau oll am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Y SEINDORF - Enillwyr y Clwb 200 am fis Mai oedd (1) £25 Mr Owen Parry, 13 Hafod Olau; (2) £15 Miss Wendy Thomas, Penisarwaun; (3) £5 Miss E. Hughes, 5 Tai Victoria.

CYNGOR EGLWYSI - Nos Lun, 13 Mai, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Llandinorwig i lansi 'Wythnos Cymorth Cristnogol 1985'. Trefnwyd y gwasanaeth gan y Parch. Aled Edwards ac fe'i cynorthwywyd yn y gwasanaeth gan y Parch. Trefor Lewis. Hwn oedd cyfraniad olaf y Parch. Aled Edwards i'r Cyngor cyn ei ymadawiad i'w faes newydd ym Motwnnog. Manteisiwyd ar y cyfle gan Miss Elisabeth Griffiths, Is-lywydd y Cyngor, i gydnabod dyled y Cyngor i Mr Edwards am ei amryfal gymwynasau i'r Cyngor yn ystod y tair blynedd a aeth heibio, gan ddymuno pob dedwyddwch a hapusrwydd iddo ef a Mrs Edwards a'u meibion yn Llŷn. Cydnabu'r Parch. Trefor Lewis ei ddyled bersonol yntau i'r Parch. Aled Edwards am y cydweithio hapus fu rhyngddo ef a'r Ficer yn ystod ei arhosiad yn Deiniolen, gan fynegi chwithdod diffuant o'i golli o'n plith. Wrth gydnabod rhodd fechan y Cyngor iddo ar yr amgylchiad, diolchodd Mr Edwards am y croeso a'r sirioldeb a brofodd yn ystod ei arhosiad. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Parchedigion Eryl Blainey ac Ifor Williams am eu habsenoldeb anorod o'r cyfarfod.

Bydd chwiorydd y Cyngor yn cynnal Noson Goffi yn y Ganolfan nos Wener, 5 Gorffennaf, gyda'r elw'n mynd at Gartrefi Barnardo, ac edrychir ymlaen am gefnogaeth hael yr ardalwyr.

DIOLCH: Dymuna Mr Close, Maes Gwylfa ddiolch o galon i'w

berthnasau a'i gymdogion a'i ffrindiau oll am y llu cardiau a'r anrhegion a'r galwadau a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod gartref. Diolch hefyd i'r meddygon a gweinyddesau Ward Aran.

Dymuna Mrs Nancy Rowlands, ddiolch i'r teulu, cymdogion, a'i ffrindiau oll am y llu cardiau, blodau ac anrhegion eraill a galwadau ffôn tra bu'n Ward Aran Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Mrs Maggie Jones, 7 Hafod Olau, ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a'i ffrindiau am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei gwaeldd.

Dymuna Emyr Pritchard, 1 Ffordd Deiniol ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion, am y caredigrwydd a dderbyniodd tra'n Ysbyty Gwynedd yn cael llawdriniaeth. Diolch i'r meddyg a'r gweinyddesau am y gofal trosto yn arbennig i'r Parch. a Mrs Trefor Lewis am iddynt fod mor garedig wrth ei briod. Diolch hefyd i Dr Marren, Plas Eryr a fu mor garedig a dod allan ato.

PLAID CYMRU: Un o'r pethau sy'n ymddangos ar raglen y gangen yw Cyfarfod yng nghwmni'r Cyng Dafydd Orwig. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn nos Fercher, 22 Mai, a'i destun oedd 'Profiadau Cyngorydd Sir'. Cafwyd amlinelliad clir a diddorol iawn o'r modd y mae Cyngor Sir Gwynedd yn gweithio.

1 Mehefin: Taith ddirgel y gangen. Disgwylir i aelodau ac eraill roi eu henwau un ai i Mr Owie Gibson neu i Mr Evan Bryn Roberts.

13 Gorffennaf - Helfa Drysor y gangen. Enwau os gwelwch yn dda

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Roedd ail gyfarfod Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa yn gymaint llwyddiant â'r cyntaf. Daeth bron i 100 ynghyd yn Neuadd Ysgol Gynradd Llanrug, ymwelodd 30 o'r newydd ac mae cyfanswm yr aelodaeth bellach yn 220.

Hwn oedd y cyfarfod cyffredinol blynyddol i bennu cyfansoddiad, ethol swyddogion ac ati. Hefyd ystyriwyd yn gyffredinol beth oedd gobeithion a disgwyliadau'r aelodau am eu cymdeithas newydd.

Tanlinellwyd rhaglen waith ddiddorol gan y trefnydd, Dafydd Whiteside Thomas a dosbarthwyd holiadur er mwyn i'r aelodau nodi eu hoff feysydd diddordeb. Atgoffwyd yr aelodau nad rhywbeth o'r gorffennol pell yw hanes a bod deunydd pwysig i haneswyr y dyfodol yn gorweddian o'n cwmpas yn awr. Mor bwysig felly ydoedd cadw enghreifftiau o bethau sy'n ymddangos yn ddibwys heddiw fel tocynnau raffl, cofnodion a chyfrifon cymdeithasau, rhaglenni sioeau a steddodau, lluniau, etc. Gobeithiai y gallai'r Gymdeithas enwi un person i fod yn gyfrifol am gasglu'r pethau hyn yn drefnus a'u cyflwyno i'r archifdy. Yn achos lluniau gellid trefnu i'w copïo a dychwelyd y rhai gwreiddiol pe dymunid.

Llywydd y cyfarfod oedd Arwel Jones. Paratowyd te a bisgedi gan staff y gegin a dymuna'r Gymdeithas ddiolch o galon iddynt am eu gwaith parod. Cyfarfod nesaf y Gymdeithas fydd y Trip ar 19 Mehefin.

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

TRIP 19 MEHEFIN 1985

Eglwys Clynnog a Phentref Trefor
yna cyw iâr a sglodion ym Mhlas Tan Dinas (£2)

Bydd **DAU** fws yn mynd ar y trip. Maent eisoes bron yn llawn a bydd rhestr yn cau pan lenwir y bysus **neu ar 3**

Mehefin 1985 fan hwyr.

Dyma lwybrau ac amserau'r bysus:

Bws 1

5.30 Nant Peris
5.40 Llanberis
5.55 Cwm-y-glo (a Brynrefail os bydd angen)
6.05 Tan-y-coed
6.15 Ceunant
6.25 Waunfawr

Bws 2

5.30 Dinorwig
5.40 Deiniolen
6.00 Penisarwaun
6.10 Llanrug
6.25 Bethel

Er mwyn cyrraedd Clynnog erbyn 7.00 gofynnir i'r aelodau ymgynnull mewn mannau cyfleus i'r bws - cysylltwch â'r aelod o'r pwyllgor o fewn eich pentref os ydych yn ansicr lle i fynd.

DEINIOLLEN

Parhad

un ai i Mr David Wyn Williams neu i Mr Gwyn Parry.

Enillwyr Clwb Cant mis Mai oedd: £10: Rhif 36, Mrs Mary Lloyd Lewis, 33 Hafod Olau. £8.50: Rhif 93, Mr Clifford Edwards, Gerlan.

DIOLCH: Dymuna Mrs May Jones, 6 Maes Gwylfa ddiolch o galon i'w theulu ac i'r holl gyfeillion am y llu anrhegion, cardiau ac arian a dderbyniodd ar ei hymddeoliad o'r gwasanaeth Cymorth cartref ar ôl 30 o flynyddoedd, ac yn arbennig i'w ffrindiau hen a newydd yn y Cymorth Cartref. Diolch hefyd i Mrs B. Jones a Mr Brown o'r Swyddfa.

BYSUS JONI HUWS: Glywsoch chi'r niws am fysis Joni Huws Yn terfynu'r syrfus i Fangor Rôl gwasanaethu am faith flynyddoedd Mr Davies yn dweud dim rhagor.

Cofio wnawn am lu o yrrwyr da diorchast

A chodnyctors heliai'r pres yn onast Joni Huws, Jon Eban, a Wil Gryffudd, William Huw

Bob o'r Cwm, Wil Gorlan, Tom, Jon Myri, Sadrach,

Eric, Bob, Tanffynnon, Nowi, Cwll Jalwaen,

Wil Iolen, a Wil Sami, Bob Tom, Jon Pritchard,

Dic bach Tan-foel, lor 'i frawd, Gwynfor a Gwilym, dyma'r ddau welodd y terfyn.

Os anghofwyd enwi rhai, maddeuwch

Mae'n anodd pan mewn tristwch cofiwch,

Ac ar derfyn hyn o bennod Mae diolch ardal o waelod calon

Am wasanaeth maith a ffyddlon I'r rhai a fu, ac sydd yr awrhon.

Terfynir cysylltiad â'r Bysus Porffor Bethesda neu bysus Joni Huws

Deiniolen gyda gwerthfawrogiad a diolch diffuant i'r Cwmni Porffor am gymryd trosodd y busnes ar ymddeoliad y diweddar J.W. Hughes

a rhoi i'r ardal wasanaeth cyson, dibynadwy, a gwerthfawr.

Diolch yn fawr iawn.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Clinig ddydd Mawrth

Mai 7 dan lywyddiaeth Mrc C. Marren. Treuliwyd prynhawn yng nghwmni Mr Leslie Roberts yn

dweud hanes ei daith i Israel trwy gyfrwng sgwrs a ffilm. Yn

cynorthwyo Mr Roberts gyda'r ffilm oedd y Parch Trefor Lewis.

Rhoddwyd y te gan Mrs Maggie Morris; Mrs Kate Ellen Davies a Mrs Gwyneth Lloyd Roberts. Enillwyd y raffl (rhoddedig gan Mrs M. Morris) gan Mrs Sally Lewis. Talwyd diolchiadau gan Mrs C. Marren. Cynhelir Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi, nos Fercher Mehefin 5.

Ebrill 23, y gŵr gwadd oedd Mr Robert Williams, 4 Tai Caradfog. Bu'n sôn am rai o hen gymeriadau'r ardal. Hefyd bu'n dweud ei hanes yn gweithio fel clerwr rheilffordd am 27 o flynyddoedd (fel clerwr). Treuliwyd prynhawn hynod o ddifyr yn ei gwmni. Llywyddwyd y cyfarfod, yn absenoldeb Mrs C. Marren, gan Mrs Megan Morris. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Mary Morris, 91 Pentre Helen. Rhoddwyd y te gan Mrs A.M. Morris a Mrs Idwen Thomas. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Jones, 4 Bwthyn. Talwyd diolchiadau gan Mrs Nancy Rowlands a Mrs Megan Morris.

LLONGYFARCHIADAU i Mared Wyn Sutherland, Pen-y-bont am ddod yn ail yn yr Arholiad Sirol. Dyma'r trydydd tro i Mared fod yn llwyddiannus.

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad ar Fai 14 yn nhŷ Mrs Vera Hughes, Bethesda y VCO. Soniodd Mrs Hughes am y penderfyniadau sydd i'w trafod cyn y Cyfarfod Blyneddol Genedlaethol yn Llundain ym mis Mehefin.

Cawsom noson ddifyr iawn gyda chroeso a phaned gan Mrs Hughes. Bu tair o'r aelodau yn Ffederasiwn Sefydliad y Merched yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

Cafodd Mrs Gwen Hughes y cyntaf am wneud ganteau a Mrs Rita Parry Jones yr ail am wneud lliain bwrdd a'r trydydd efo gosod blodau.

Cafodd Mrs Marian Williams yr ail wobwr am wneud pasties.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 3 pryd y disgwylir Arddangosfa o Goluro a Chadw'n Hardd gan aelod o staff 'Debenhams' Bangor.

GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL:

Os bydd digon o enwau wedi dod i law mewn da bryd, bwriada'r Gymdeithas Llenyddol Undebol drefnu taith i'r Bermo a'r Friog, dydd Sadwrn, Gorffennaf 6. Os y bwriadwch ddod, cysylltwch ag Eirlys Williams ar unwaith os gwelwch yn dda.

CYFARFOD PREGETHU'R WESLEAID:

Bydd yr uchod yn cael ei gynnal yng Nghapel Disgwylfa ddydd Sul Mehefin 1 pryd y pregethir gan y Parch E.H. Griffith, BA, BD, y Rhyl. Dechreuir am 10 o'r gloch y bore a 5 o'r gloch yr hwyr. Croeso i bawb.



Dymuna Guides Cyntaf Deiniolen ddiolch i Mr Len Jones am eu hyfforddi mewn Ymarfer Corff am fis. Ar ddiwedd y mis cyflwynodd Len Jones fedalau a thariannau i'r enillwyr. 1af: Sian Jones, 2. Donna Jones, 3. Nia Griffiths a chyflwynodd fedal i bawb arall oedd yn ymgeisio.

Dymuna Gloria, Yvonne a Pam ddiolch yn arbennig iddo, nid yn unig am ei amser ond am ei roddion yn ogystal.

REG YN CANU ETO

Faint ohonoch chi sy'n cofio'r ddeuawd boblogaidd yn y chwedegau 'Aled a Reg'? Wel, mae un rhan ohoni, sef Reg Edwards sy'n byw yn 3 Glyn Afon, Deiniolen wedi aildddechrau canu a hynny am reswm da iawn. Nos Wener, Mai 17 roedd Reg yn canu mewn disgo a drefnwyd yng Nghlwb Pêl-droed Bethesda ar gyferodi arian i brynu peiriant bywyd i Ysbyty Gwynedd. Dim ond un peiriant o'r fath sydd yno.

Cychwynnwyd yr apêl ar gyfer cael peiriant cynnal bywyd i Fangor gan dad bachgen o Langefni a fu farw ar y peiriant sydd yno. Diolch i'r bobl a fu'n danfon ac i weithwyr Austin Taylor ble mae Mr Winnard (tad y bachgen) yn gweithio - mae £2,500 eisoes wedi'i gasglu. Chwarter y nod yw hyn.

Teimla Reg hi'n fraint o gael gwneud ei ran - gan iddo yntau orfod treulio wythnosau yn yr ysbyty ddiwedd y flwyddyn yn dilyn damwain fawr. Yna cafodd thrombosis - a bu bron iddo golli'r dydd.

Llongyfarchiadau iddo ar ei adferiad ac ar ei ymdrechion dros yr apêl.

RHODDION (eto)

Diolch yn fawr i Mr a Mrs H.T. Lewis, Irmington, N.S.W., Awstralia, am eu rhodd o £1.50.



Cyrraedd y Safon

Dyma Gerwyn Jones a Haydn Maxwell o glwb Codi Pwysau Pwer Dinorwig a enillodd Dystysgrifau Safon yn ddiweddar. Tystysgrif safon efydd yn y dosbarth 75kg sydd gan Gerwyn ac mae Haydn yn arddangos ei ddwy dystysgrif, efydd ac arian, yn y dosbarth 82\kg.

DIWRNOD HANESYDDOL I REITHOR LLANBERIS YN GWEINYDDU EI BRIODAS GYNTAF YN Y GYMRAEG



Yng ngholofn newyddion Llanberis, gwelwch adr oddiad am briodas Eleri ac Eilir, Peris View, Llanberis. Dyma lun ohonynt gyda'r Parch Alun Hawkins, Rheithor Llanberis. Hon oedd y briodas gyntaf iddo weinyddu yn y Gymraeg.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)

ECO'R IFANC

GWAITH a/neu CYNLLUN HYFFORDDI'R IFANC

Amcangyfrif mai tua 10% o bobl ifanc Gwynedd aiff i waith parhaol yn syth ar ôl gadael yr ysgol eleni. Bydd y mwyafrif ohonoch sy'n gadael yr ysgol i chwilio am waith yn debygol o fanteisio ar Gynllun Hyfforddi'r Ifanc yn gyntaf. Rhaglen sydd wedi'i chynllunio i roddi sylfaen eang o sgiliau, hyfforddiant, addysg a phrofiad ymarferol ym myd gwaith yw Cynllun Hyfforddi'r Ifanc, fel y gellir adeiladu arni eto yn y dyfodol. Gobeithir y byddwch yn llawer mwy cystadleuol ar ddiwedd y cynllun ac y bydd ganddoch sgiliau gwerthfawr i'w cynnig i gyflogwyr. Cynghorir chi yn gryf i gofrestru yn y Swyddfa Gyrfaoedd yn syth ar ôl i chi adael yr ysgol os byddwch eisiau help i gael gwaith a hyfforddiant.

Pa lwybr bynnag a ddewiswch gofalu eich bod yn gwneud penderfyniad sydd wedi'i seilio ar yr holl wybodaeth sydd ar gael. Mae'n syniad da hefyd i ystyried nifer o ddewisiadau – gofalu beidio â rhoi eich wyau i gyd mewn un fased.

MEWN CYFYNG GYNGOR – METHU GWYBOD BETH I'W WNEUD NA BLE I DROI?

Cofiwch rydym ar gael yn y Swyddfa Gyrfaoedd os dymunwch gael trafod eich camau nesaf gyda chi – prun ai dychwelyd i'r ysgol, mynd i'r coleg, chwilio am waith a/neu Gynllun Hyfforddi'r Ifanc fydd eich dewis.

(Am drafodaeth ddyfnach am yr uchod – darllenwch y PECYN GWYBODAETH I DDISGYBLION Y BUMED FLWYDDYN – GWASANAETH GYRFAOEDD GWYNEDD.)

**MAE'R GWASANAETH GYRFAOEDD AR EICH CYFER CHI
DEFNYDDIWC O**

YMGYRCH
GENEDLAETHOL
CHWILIO AM WAITH

CYFLOGWYR GWYNEDD –
FEDRWCH CHI HELPŮ?

FEDRWCH CHI GYFLOGI
PERSON IFANC



**MAE GAN POBL IFANC
SGILIAU GWERTHFAWR
I'W CYNNIG**

**GWASANAETH
GYRFAOEDD
GWYNEDD**

HAU I FEDI

**BUDDSODDWCH
I'CH DYFODOL**

**CYFLOGWCH WEITHWYR
IFANC**

Os oes ganddoch job i berson ifanc
cysylltwch â'ch

**SWYDDFA GYRFAOEDD
NAWR**



**MAE POBL IFANC
EICH ANGEN CHI**

SWYDDFYDD CYRFAOEDD GWYNEDD

BANGOR
Llys Gwynedd, Bangor 364682

CAERGBY
58/60 Stryd y Farchnad, Caergrbi 2177

CAERNARFON
2 Stryd y Castell, Caernarfon 4121

CONWY
Muriau, Stryd Rosehill, Conwy 3331

DOLGELLAU
Penafag, Dolgellau 422341

PWLLHELI
9 Lleiniau Uchaf, Pwllheli 612856

ATODIAD I NEWYDDION LLANBERIS

DIOLCHIADAU: Dymuna Mr John H. Hughes, Prifathro Ysgol Dolbadarn, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd, y llythyrau, cardiau, rhoddion ac ymweliadau yn ogystal â'r galwadau ffôn tra y bu'n Ysbyty Gwynedd, Bangor ac ar ôl iddo ddychwelyd gartref. Diolch yn fawr.


Dymuna Ian, 87 Maes Padarn

ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU: i David Evans, Gwesty'r Gwynedd ar ddatlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Fai 28.

CROESO ADREF: Dion, baban bychan Maldwyn ac Annwen Hughes, 'Rallt Goch, Ceunant.

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**




**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

Bydd nifer o'n darllenwyr ifanc yn cyrraedd croesffordd bwysig yn eu bywydau yn ystod y misoedd nesaf. Mae'n debyg mai'r cwestiwn tyngedfennol fydd yn eu corddi fydd "Beth wna' i nesaf?"

Mae Eco'r Ifanc wedi sicrhau cymorth Delyth Wyn Williams o'r Swyddfa Gyrfaoedd i geisio ateb rhai o'ch cwestiynau. Gobeithiwn y bydd ei chynghor o fudd i lawer ohonoch sy'n ansicr o'r dyfodol.

Mae yma hefyd apêl i gyflogwyr y fro i roi cyfle i unrhyw berson ifanc gael profiad o waith. Ein gobaith mawr yw y bydd ymateb ffafriol i'r apêl – os byddai un person ifanc yn elwa o'r ymgyrch arbennig yma byddai'n werth chweil. Beth amdani gyflogwyr?



BE NESA AR ÔL DOSBARTH PUMP?

£4 Beth yw eich dewisiadau ar ddiwedd y bumed flwyddyn?

ADDYSG LLAWN AMSER

a) Dychwelyd i'r ysgol

dechrau ar gwrs Lefel A cwrs newydd T.A.G.A. (Tystysgrif Addysg Gyn-Alwedigaethol – cwrs sy'n cyfuno astudio yn y coleg technegol ac yn yr ysgol) ailsefyll Lefel o neu TAU.

Os mai dychwelyd i'r ysgol yw eich bwriad dylech drafod hyn ymhellach yn yr ysgol gyda'r prifathro, athro gyrfaoedd ac athrawon pwnc.

Dyma rai cwestiynau i'w gofyn:

1) Pa bynciau a lefel (A.O.TAGA) a gynigir?

2) A oes gennyf y gallu a'r diddordeb i ddilyn y cwrs?

3) I pa le mae fy newid o bynciau cwrs yn arwain wedyn?

Dylech ddewis bynciau rydych yn dda ynddynt ac yn eu mwynhau a'r rhai sydd eu hangen ar gyfer eich cynlluniau am yrfa. Ceisiwch gadw cymaint o ddrysau'n agored â phosib.

b) **Coleg Addysg Bellach Technegol:** cynigir cyrsiau galwedigaethol fel cyrsiau arlywaeth, ysgrifenyddol, astudiaethau busnes, peirianeg, trin gwallt ac ati. Ceir manylion am y cyrsiau sydd ar gael yn lleol ac am eu gofynion mynediad ym mhrosiectws y gwahanol golegau. Os nad ydych wedi ymgeisio bellach efallai nad yw'n rhy hwyr ar gyfer rhai cyrsiau – cysylltwch yn syth â'r coleg neu'r Swyddfa Gyrfaoedd rhag ofn ei bod yn bosib gwneud cais hwyr. Fodd bynnag, dylech sylweddoli bod cystadleuaeth fawr am le am rai cyrsiau oleg, a bod llawer o bobl ifanc yn cael eu siomi.

DYDDIADAU I'W COFIO

Gorffennaf 7-13: Wythnos Garnifal Bethel.

Gorffennaf 14-20: Wythnos Garnifal Llanberis a Ras yr Wyddfa.

**HELP GAN Y GWASANAETH
GYRFAOEDD**

A ydych chi'n ansicr ynglŷn â'ch camau nesaf i'r dyfodol ac eisiau help?

Cofiwch mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn arbenigo mewn rhoi cymorth i bobl ifanc sydd

yn yr ysgol mewn coleg mewn gwaith yn ddiwaith neu ar Gynllun Hyfforddi'r Ifanc.

Os ydych chi eisiau:

Gwybodaeth am swyddi/gyrfaoedd/cyrsiau
Cynghor ynglŷn â Gyrfaoedd
Addysg Bellach/Uwch
Help gyda chwilio am waith.

– Cysylltwch â'r Swyddfa Gyrfaoedd 2 Stryd y Castell
CAERNARFON
Rhif ffôn: Caernarfon 4121 est 2221.

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL

Pleser o'r mwyafrif yw cael ymfalchïo a llongyfarch plant y fro am eu llwyddiant yng nghystadlaethau Llenyddiaeth a Gwyddoniaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

CYNTAF

Ysgol Gynradd Llanrug – Cywaith Gwyddoniaeth 10-12 oed.

AIL

Sion Wyn Hughes (Gwaun Gynfi) – Rhyddiaith 8-10 oed

Sian Wyn Jones (Ysgol Brynrefail) – Barddoniaeth Blwyddyn I

Angharad Price ac Eurgain Evans (Brynrefail) – Cywaith cyfansoddi drama 12-15 oed

Ysgol Brynrefail – Cywaith Blwyddyn I (3ydd wobwr hefyd)

TRYDYDD

Non Llywelyn Jones (Adran Bentref Bethel) – Barddoniaeth 8-10 oed

Barry John Thomas (Gwaun Gynfi) – Rhyddiaith 8-10 oed

Ysgol Brynrefail – Cywaith Blwyddyn 2 a 3

Adran Bentref Waunfawr – Cywaith Gwyddoniaeth 10-12 oed

Dyma gyfle i flasuo peth o waith disgyblion blwyddyn un Ysgol Brynrefail.

POSAU CREADIGOL

Pry copyn syfrdanol ynghanol pigau gwyrdd.
Gwallt pync yn hongian ar gorff tenau o effaith cyffur.
(Dant y llew)

Ffion Jon Williams

Arch goch waedlyd wydrog.
Tardis gwifrig yn cysylltu â phen draw'r byd.
Asgwrn a lleisiau'n dyfod ohono.
(Ciosg Teleffon)

Hannah Rudkin

Cwpaned yn llawn o dywod
Tywod gwaedlyd a rhewlyd -
Yn crinsian mewn ceg fel cneuen yn cael ei thorri.
(Slysh Pypi)

Amanda Orrack

EIN DOSBARTH

Mae fy nosbarth i yn wahanol iawn i beth oedd o yn Ysgol Dolbadarn. Mae dau ddeg naw o blant - tair ar ddeg o enethod ac un ar bymtheg o hogiau. Mae'r plant i gyd yn dod o fro'r Eco.

Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd daeth un aelod o'r dosbarth yn fuddugol am ysgrifennu cerdd benrhydd, ei henw yw Siân Wyn Jones o Lanrug. Hefyd, cawsom y drydedd wobwr am gynllunio cywaith ar 'Ynysoedd'. Enwau'r plant oedd Marc Williams, Llion Hughes, Iolo Griffith, Justin Torr a Trystan Thomas.

Mae plant o'r dosbarth yn chwarae offerynnau cerdd. Mae Trystan Thomas yn chwarae fflwt, Iwan Williams yn chwarae corn, Siân Jones yn chwarae corn tenor ac mae Iolo Griffith yn chwarae trombon.

Pencampwyr y dosbarth yn y mabolgampau eleni oedd Rodney Roberts a Jenny Clarida. Ein hathrawes ddosbarth yw Mrs M. Cynfi Griffith - mae'n glên dros ben, ond yn flin pan fo plant yn anghofio llythyrau absenoldeb.

Marc Williams 1A2

Yn 1A3 mae deuddeg o enethod a deg o hogiau. Ar furiau ein hystafell ddosbarth mae mapiau a phosteri o wlad Groeg. Mae yna gypyrddau yn llawn llyfrau o wlad Groeg a Ffrainc. Ein hathrawes ddosbarth yw Mrs Mari Williams ac mae'n dysgu Astudiaethau Clasurol.

Wedi gadael yr ysgol fach teimlais yn rhydd ond wrth agosáu at Fedi'r pedwerydd teimlwn yn gynhyrfus. Yn 1A3 ceir gwersi mwy neu lai yn y ddwy iaith, ac mae pedwar ar ugain o blant yn y dosbarth. Mae tair o enethod yn hoff o geffylau, sef Cora, Tracy a Chramaine. Mae Eirian yn rhedeg ac mae ganddi wyth o fedalau - llwyddiant da iawn o gofio mai ar ôl y Nadolig y cychwynnodd redeg. Rwy'n hoffi yr ysgol yma oherwydd rydym yn cael gwersi gwahanol i wersi yr ysgol fach. Ein

Fel yr hydref gwyllt
Yn dianc i'r goedwig
Fflach o dân yn chwilio am fwyd
(Y Llwynog)

Cora Jeavons

Ploryn anferth tywyll yn cyrraedd y cymylau
Bron â chyrraedd y nefoedd
Coed fel marblis gwyrdd arno.
(Mynydd)

Stacy Turner

Tameidiau o sialc yn crafu ar stridedi pigog o fwrdd du
Briwsion rhwbiwr wedi eu gadael ar linellau papur.
Llefrith sur wedi ei dolli ar dameidion o eisin
(Y Ddraenen Ddu)

Ffion Jon Williams

Y STORM

Fflach o ganol yr awyr ddu
Ym ymestyn i'r llawr
Y twrw felltith
Sgrech ddwfn

Llaw,
enfawr
yn goleuo awyr nerfus
Edrych,
milwyr
yn martsio at eu praidd
Taranau
Taranau
Taranau
yn perfformio fel band pres.

Distawrwydd
y milwyr yn gorffwyso
a dechrau marw
fesul fflach
a fesul nodyn
Distawrwydd.

Iestyn Roberts

gwersi newydd yw Astudiaethau Clasurol, Hanes a Gwyddoniaeth. Rwy'n hoffi rhai gwersi yn fwy na'r gweddill ond rwy'n casâu ambell i bwn â chasineb perffaith!

Mariette Laetham 1A3

Ein hathrawes ddosbarth yw Mrs Eysyllt M. Jones o Harlech. Mae yna 31 o blant yn y dosbarth, dwsin o enethod a phedwar ar bymtheg o fechgyn. Mae yna lawer o furluniau ar y waliau, un am y gwanwyn, un arall am ysbrydion a dirgelion, un arall gyda llun Wil Pen Wy, y 'pync' gwallgo na wyr sut i sillafu ac un gyda llun o dramp. Ar bob llun mae yna wahanol storïau, posau, penillion ac englynion gan y dosbarthiadau y mae Mrs Jones yn eu dysgu.

Eleni roedd chwech o ddisgyblion y dosbarth yn cynllunio cywaith am 'Ynysoedd Cymru' i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Daeth cywaith ein dosbarth yn ail drwy Gymru gyfan. Mae yma dri o fechgyn sydd yn chwarae offerynnau ac mae'r rhan fwyaf o'r dosbarth yn gallu canu. Mae Ffion yn enillydd yn yr Urdd, ac mae Iolo Wyn a minnau yn chwarae ym mand Deiniolen.

Dylan Wyn, 1A1

FY ARDAL

Mae ardal Deiniolen yn ardal fynnyddig a gwledig. Mae'r bobl yn gyfeillgar a chroesawus a phawb bron yn adnabod ei gilydd. Mae llawer o weithgareddau yma fel Clwb Ieuencid, dau dîm pêl-droed, llyfrgell wedi ei chysylltu â chlwb snwcer ac hefyd caffi o'r enw Y Winllan, ble mae llawer o blant yn cwrdd i siarad neu gael rhywbeth i'w fwyta neu'i yfed. Mae yma fand arian ers cant a hanner o flynyddoedd. Mae llawer o blant fel fi yn perthyn i fand ieuencid Deiniolen. Ond mae Iwan o'r dosbarth yma a Dylan o 1A yn perthyn i'r band mawr ac yn cael mynd i lawer o lefydd ar gystadlaethau. Mae'r Band Arian wedi ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol fwy nag unwaith a byddant yn cynnal cyngherddau a bob Nadolig mynd i ysbytai i godi calon rhai.

Bydd y rhan fwyaf o bentrefi yr ardal yma yn cynnal eisteddfod yn flynyddol ac mae hwy i'w gael wrth baratoi ar eu cyfer. Mae gan yr ardd yma hefyd ei phapur bro sef Eco'r Wyddfa. Bydd yr Eco yn mynd i bob tŷ yn yr ardal bron, bydd fy nhad a mam yn edrych ymlaen am iddi ddod allan i gael y newyddion ei bris yw ugain ceiniog.

Pobl gyffredin yw'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yma - gweithwyr felly. Y prif ddiwydiant oedd chwarel Dinorwig, ond mae wedi cau er 1969 a gwnaeth hyn i lawer o bobl fod allan o waith. Pan oedd gorsaf drydan Dinorwig yn cael ei

hadeiladu cafodd llawer eu cyflog ond erbyn hyn ar ôl ei chwblhau dim ond ychydig sydd yn gweithio yno. Nid oes yma fawr iawn o ddiwydiant dim ond ffatri CLOGWYNyng Nghlwt-y-bont, Deiniolen sydd yn gwneud celfi dringo.

Mae y rhan fwyaf o siopau bach y pentrefi wedi cau ac mae'n rhaid i bobl fynd i'r trefi i siopa yn yr archfarchnadoedd. Mae bob dim i'w weld yn darfod yn raddol yn y wlad. Y sôn diweddaraf yw fod Moduron Porffor Deiniolen yn rhoi gorau i redeg o Ddeiniolen i Fangor ac yn ôl. Bydd chwith i lawer o bobl heb geir.

Ychydig iawn o weinidogion a ficeriaid sydd yn yr ardal yma ac mae ficer Deiniolen, y Parchedig Aled Edwards yn gadael Deiniolen i fynd i Botwnnog. Mae pob un yn gorfod gofalu am lawer o eglwysi ac felly mae trefn gwasanaethau ar y Sul wedi newid yn arw. Gwelwyd arwydd "Ar Werth" ar aml i gapel yn yr ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma.

Yn y cylch yma y mae llawer o ffermdai a ffermydd ac hefyd tyddynnod. Hefyd mae yma lawer o dai haf. Bydd llawer o ymwelwyr yn dod yma ar eu gwyliau ac i ddringo'r mynyddoedd. Bydd y bobl ddiethr yn gwirioni gyda'r golygfeydd sydd gennym ac yn eu gwerthfawrogi yn llawer mwy na ni sydd yn byw yn eu canol.

Yn fy marn i, yr ardal hon yw'r ardal orau i fyw ynddi yng Nghymru, ond wrth gwrs nid wyf wedi byw yn unman arall.

Iolo Griffith, 1A2

DEWIS PYNCIAU YN NOSBARTH 3

Dyma gyngor amserol i'r rhai ohonoch sydd yn y trydydd dosbarth fydd yn gorfod dewis pynciau cyn diwedd tymor yr haf.

1) Cofiwch ei bod hi'n bwysig cael gwybodaeth a chynghor cywir cyn gwneud eich dewis.

- a) am SWYDDI (gofyn i'r athro gyrfaedd neu'r Swyddog Gyrfaedd)
- b) am chi eich HUNAIN (gofyn i rhywun sy'n eich adnabod yn dda)
- c) am yr YSGOL a'r dewisiadau (gofyn i'r athrawon)

2) Cofiwch bod rhai pynciau yn orfodol - Cymraeg, Saesneg, Mathemateg

3) Dylech wneud ymdrech i ddewis pynciau gan ystyried y canlynol:

- a) eich hoff bynciau
- b) eich pynciau cryfaf
- c) y pynciau sy'n bwysig i'ch gyrfa
- ch) y pynciau yr ydych wedi cael cyngor i gymryd

Defnyddiwch y tabl i wneud eich dewis. Ysgrifennwch yr holl bynciau sydd ar gael yn yr ysgol ac yna rhoi ✓ yn y manau priodol. Dylech ddewis o leiaf un o bob grŵp.

	PYNCIAU GWYBODAETH	IAITH	DYNIARTHAU	PYNCIAU CREADIGOL/ YMARFERIOL	ARALL
Pynciau ar gael					
Rwy'n swynhau ..					
Rwy'n dda yn ...					
Rwyf wedi cael cyngor i gymryd					
Rhaid cael y rhai hyn ar gyfer fy ngyrfa					

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

D.W. DAVIES

CONTRACTWR
CLUDO

LLWYTHI BYCHAIN
5 STRYD THOMAS

LLANBERIS

Tel: 872556

Llogi Cymysgwyr
Concrit

Clirio Safleoedd

Clirio Tai

am brisiau

cystadleuol

GWASANAETH

TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

PROTEST WRTH AGOR YR ORSAF NEWYDD — Ar achlysur agoriad swyddogol yr Orsaf Garthffos newydd ym Mrynrefail ar Fai 10 yr oedd un person yn amlwg yn ei habsenoldeb sef ein cynghorydd lleol Mrs Pat Larsen — yr union berson a fu'n ymladd ers blyneddau am welliant i adnoddau o'r math yma yn yr ardal. Ni chafodd wahoddiad. Wedi'r brotest am yr anghwrteisi, gorfodwyd Cadeirydd y Bwrdd Dŵr, Mr John Elfed Jones, i ymddiheuro'n gyhoeddus, ac fe ategwyd hyn gan Faer Arfon, y Cynghorydd Gareth Buckley Jones, cyn iddo weinyddu'r agoriad swyddogol. Rhoddwyd datganiad o fanylion y cynllun gan y cadeirydd a pheirianwyr y Bwrdd Dŵr. Mae'r cynllun yn gwasanaethu tua 3,000 o gartrefi yn Neiniolen, Clwt-y-bont a Brynrefail ac wedi costio dros £30,000! Wedi'r driniaeth yn yr orsaf honnir fod y dŵr sy'n llifo allan i afon Caledfrwd yn ddigon pur i'w yfed!

Gwahanol iawn yw'r stori cyn i'r budreddi gyrraedd yr orsaf lle mae diffyg eisoes wedi ymddangos yn y man pwmpio ger Treneilian ond mae'r Bwrdd Dŵr yn addo na fydd diffygion yn y dyfodol.

PROFEDIGAETH — Yn ystod y mis aeth heibio, bu farw Mrs Katy Jones, Adwy'r Dŵr yn 57 mlwydd oed. Bu Mrs Jones yn wael ers blyneddau o lawer a mawr edmygydd y gofal a roed iddi gan ei gŵr. Mae ein cydymdeimlad yn fawr gyda'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli Mrs Katy Jones a hefyd mewn cyd-ddigwyddiad anhygoel o farwolaeth ei modryb Miss Meira Foulkes yr un diwrnod. Yn un o deuluoedd hynaf yr ardal, o Benllyn, bu Miss Foulkes yng nghartrefi Maesincla a Phlas Pengwaith a bu farw ym Mryn Seiont.

Dymuna Mr Jones, Adwy'r Dŵr ddiolch at bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ato y ei profedigaeth, ond yn arbennig fe ddymuna ddatgan ei ddiolch i'r Parch John Morris am ei wasanaeth ffyddlon i'r teulu.

DIOLCH: — Dymuna Mrs Jennie Maxwell, Fro Dawel ddatgan ei diolch i't teulu, ffrindiau a chymdogion ah yr holl garedigrwydd a dangoswyd iddi tra yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Bu cangen Brynrefail yn llwyddiannus dros ben yn y Sioe Gynnyrch a Gwaith Llaw yng Nghaernarfon drwy ennill y tlws am y mwyafrif o farciau, a bu llywydd y gangen Mrs Pat Jones, Cae Coch yn fuddugol fel yr unigolyn a enillodd fwyaf o farciau.

Yng nghyfarfod y mis yn yr ysgoldy trafodwyd y cynigion a fydd gerbron y gynhadledd flynyddol yn Llundain. Darparwyd y te gan Mrs Jennie Roberts a Mrs Mair Williams. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Val Davies ac fe'i henillwyd gan Mrs Mair Williams.

CLWB Y MAMAU — Daeth Rhydwen Pugh a Judy Hughes o Lanrug i'r ysgoldy i gynnal parti gwerthu dillad at elw y clwb. Rhoddwyd gwahoddiad hefyd i Sefydliad y Merched ymuno. Darparwyd y te gan Jennie Williams a Jennie Hughes. Rhoddwyd anrheg y mis gan Moira Ellis ac fe'i henillwyd gan Mrs Jean Davies.

YR ARHOLIAD SIROL — Llongyferchir Glenda Walters, 3 Minffordd a Catrin Gwyn, Min-y-Nant ar ennill dystysgrifau y Dosbarth Cyntaf yn Arholiad Sirol Henaduriaeth Arfôn dan 14 oed. Cynhaliwyd y Cyfarfod



Maer Arfon, Gareth Buckley Jones a John Elfed Jones, Cadeirydd y Bwrdd Dŵr ar achlysur agor Gorsaf Garthffos newydd Brynrefail.

Gwobrwyo yn Jerusalem, Penmaenmawr ddydd Mawrth Mai 14. Derbyniodd Joanne Evans, Minafon dystysgrif ail ddosbarth a Maria Evans, Minafon a Paula Walters, 3 Minffordd dystysgrif trydydd dosbarth yn yr un oedran. Yn y dosbarth dan 9 oed derbyniodd Nicola Houston, Trem Eilian ac Owain Gwyn, Min y Nant dystysgrifau trydydd dosbarth, ac yn y dosbarth dan 11 oed enillodd Eira Wyn Evans, Minafon dystysgrif ail ddosbarth.

CYMANFA DOSBARTH PADARN — Cynhaliwyd Cymanfa'r Dosbarth eleni yng Nghapel Disgwylfa, Deiniolen ddydd Sul, Mai 5. Gwnaeth plant ac ieuencid Ysgol Sul MC Brynrefail gyfrif da ohonynt eu hunain ac maent i'w llongyfarch yn fawr. Yn yr Arholiad Ysgrifenedig gwobrwywyd y canlynol: Dan 9 oed: Nicola Houston ac Owain Gwyn. Dan 11 oed: Eira Wyn Evans. Dan 14 oed: Glenda Walters, Joanne Evans, Paula Walters a Maria Evans a Catrin Gwyn. Derbyniodd y canlynol wobrau am eu gwaith yn yr Arholiad Llafar: Dan 5 oed, Rhian Davies a Iola Davies; Dan 8 oed, Dafydd Williams; Dan 9 oed, Nicola Houston, Marian Jones ac Owain Gwyn; Dan 10 oed, John Evans. Dan 11 oed, Eira Wyn Evans. Dan 12 oed, Paula Walters, Catrin Gwyn a Maria Evans. Dan 13 oed, Caron Jones, Glenda Walters, Joanne Evans ac Einir Wyn. Dan 15 oed, Alwen Jones a Jacqueline Walters. Derbyniodd y Parti Cyd-ardodd dan 16 oed ganmoluaeth uchel am eu gwaith. Roedd Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian, un o athrawesau'r Ysgol Sul yn cyd-arholi'r plant yn yr Arholiad Llafar yn y dosbarthiadau 7-11 oed.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574 PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL UWCHRADD BRYNREFAIL

PÊL-DROED

Dewiswyd Stephen Owen (Cwm-y-glo) i chwarae fel gôl-geidwad i dîm Ysgolion Cymru dan 18 oed yn erbyn tîm ieuencid proffesiynol Iwerddon yn Cork. Colli wnaeth yr ysgolion 3-0.

CRICED

Mae Stephen Owen (Cwm-y-glo) a Gwyn Morris (Ceunant) wedi eu dewis i chwarae i dîm criced Ysgolion Gwynedd dan 18 oed ac mae Stuart Williams (Llanrug), Dylan Jones (Penisarwaun) a Neal Roberts (Brynrefail) yng Ngharfan dan 15 oed y Sir. Mae'n debyg mai Stuart fydd capten y tîm dan 15. Rhagwelir yn anffodus y bydd llawer o gemau yn cael eu gohirio oherwydd anghydfod yr athrawon. Fodd bynnag, mae Stuart Williams yn chwarae'n rheolaidd gyda chlwb criced Bethesda ac mae'r gweddill a enwir uchod yn ogystal â Marc Parry (Llanberis) a Rheon Larsen (Penisarwaun) yn aelodau o Glwb Criced Fron Dinas.

Cynhaliwyd mabolgampau'r Ysgol ar Mai 16.



Llun: Capteiniaid Gwyrfa: Iestyn Jones a Lynn Jones hefo'r gwpan.

Dyma'r canlyniadau:

Cyfanswm pwyntiau: Eryri, 160; Eilian, 174½; Elidir, 175; Gwyrfa, 216. **Victor Ludorum:** Paul Grant (Llanrug) 43pt.

Victrix Ludorum: Helen Mai Pritchard (Nant Peris) 33½pt.

Perfformiadau Arbennig o Dda:

Rodney Roberts (Brynrefail) ennill 4 cystadleuaeth dan 13

Michael Roberts (Cwm) torri record pwysau bechgyn hyn.

Steven Riley, ennill 3 cystadleuaeth bechgyn hyn.

Neal Wannop (Bethel), ennill 3 cystadleuaeth bechgyn hyn.

Jennifer Clarida (Llanberis), ennill 4 cystadleuaeth dan 13.

Meinir Williams, Llanrug, torri record 200m dan 13.

Gwenno Parry (Ceunant), torri record disgen dan 15.

Cyflwynodd Michael Roberts pencampwr Ysgolion Cymru y



llynedd yn y pwysau a'r ddisgen un o'i 'festiau' rhyngwladol i Mr Thomas i'w chadw gan yr ysgol. Fe ddangosir 'fest' Michael wrth ochr 'fest' Kevin Davies (Llanberis) athletwr rhyngwladol arall o'r ysgol yn y saithdegau.

CODI PWYSAU

Llongyfarchiadau unwaith eto i Gwynfryn Williams (Penisarwaun) ar ddod yn gyntaf ym mhencampwriaethau codi pwysau Cymru i fechgyn dan 18 oed.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD

Daeth nifer o wobrau i'r ysgol yn Adran Lenyddiaeth Eisteddfod yr Urdd eleni. Daeth dwy ohonynt yn yr Adran Llunio Cywaith i'r flwyddyn gyntaf ar y testun 'Ynysoedd'. Darlunio Ynysoedd Cymru a wnaeth y CEJARS, sef Julie Bayliss, Kathy Jones, Stephen Lee Jones, Dylan Wyn a Iolo Wyn Griffith. Yn drydydd yn yr un gystadleuaeth oedd y TYFFARS, sef Llion Hughes, Marc Williams, Justin Torr, Justin Thomas, ac Adrian Evans. Llunio cywaith ar Ynysoedd y Byd a wnaethant hwy.

Testun y cywaith i flwyddyn 2 a 3 oedd 'Tri Grŵp Pop'. Disgrifiodd criw o'r ail flwyddyn Rebecca Ann, Eurgain Haf, Sioned Roberts, Angharad Price, Sioned Williams a Jennifer Ellen y grwpiau, Maffia Mistar Hughes, Geraint Jarman a'r Cynganeddwy, a'r Ficar. Dyna esbonio eu ffug enw y MAFFJARICIAID.

Gwaith caled oedd llunio'r cyweithiau, a diolch i bawb am roi awr ginio i hel erthyglau y pastio a thynnu lluniau. Diolch i Mr Ginsberg a Mr M. Williams am bob help.

Cafwyd enillwyr unigol yn yr Eisteddfod hefyd. Yn ail am farddo iaeth i ddisgyblion y flwyddyn gyntaf oedd Sian Wyn Jones, am ei cherdd i'r 'Gerddorfa'. Daeth Eurgain Haf ac Angharad Price yn ail am lunio sgwrs rhwng plentyn yn y flwyddyn 1985 a phlentyn yn y flwyddyn 2085.

(Rhagor o newyddion o'r ysgol ynghyd â mwy o luniau o fuddugwyr y mabolgampau a'r Urdd ar dudalen 19.)

CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am gymorth daliadau o'r Gronfa uchod. Cynigir cymorth mewn cylch eang o weithgareddau, a cheir yr amodau a'r manylion, ynghyd â ffurflenni cais, gan yr ysgrifennydd:

ALED OWEN, 13 CHARLOTTE ST., LLANBERIS

Bydd yn ofynnol i'r ceisiadau ddod i law erbyn AWST 31, 1985.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

DIOLCH - Dymuna Eirwen Gwynn, lolo ac Ellen ap Gwynn a'r plant ddiolch yn gynnes iawn i bawb a gydymdeimlodd â hwy yn eu profedigaeth, ac yn absenoldeb y rhoddion a'r nyrsys am eu gogal ac i'r holl gyfeillion a chymdogion a fu mor barod eu cymwynas i Harri Gwynn yn ystod blynyddoedd ei waeledd. Trysorid y teyrngedau hyfryd iddo a gwerthfawrogi hefyd y cyfraniadau hael i'r Gymdeithas Afiechyd Parkinson.

CRONFA GOFFA - Derbyniodd Mr Huw Watcyn Jones, Bronwyf (Trysorydd Eglwys Pontrhyallt) £173 o law Dr John Glyn Hughes, sef y rhoddion ariannol a gyfrannwyd i Gronfa Goffa ei annwyl fam Mrs Lizzie Hughes, Isfryn. Diolch i bawb.

CASGLU HEN BAPURAU NEWYDD A CHYLCHGRONAU - Os ydych am gael gwared o'ch hen bapurau mae croeso ichwi fynd â nhw i garej Mr Gwilym Rees Hughes, Morannedd, 1 Rhes Hermon. Byddai Cwmni Drama Llanberis yn ddiolchgar iawn amdanynt. **DQIOLCH YN FAWR IAWN.**

WY GYMDEITHAS UNDEBOL - Bydd y dydd hanes, dan nawdd Y Gymdeithas ndebol ar Fehefin 15, dan arweiniad y Parch John Morris, BD. Derbynnir enwau'r rhai a fwrda ddod gan yr ysgrifenyddes Mrs E.W. Tomas.

CAPEL PONTRHYTHALLT - Bu'r canlynol yn llwyddiannus yn yr Arholiad Ysgrifenedig: Judith a Delyth Jones a Catrin Thomas, eto yn yr Arholiad Llafar ynghyd â leuan ac lolo Griffith a Catherine Williams. Yn adran yr oedolion bu Mrs M. Lloyd Williams a Mrs E.W. Williams yn llwyddiannus. Gwobrwywyd hwynt yn y Gymanfa a gynhaliwyd yn y Bontnewydd. Llongyfarchiadau i Mrs Mair Huws, Cilmeri ar y llwyddiant fu ar y canu yn y Gymanfa dan ei harweiniad. Cafwyd cynulleidfaoedd da yn y ddau gyfarfod.

MERCHED Y WAWR - Yng nghyfarfod mis Mai, gyda Mrs Bethanne Williams yn llywyddu, croesawyd atom Mr Gareth Evans, darlithydd yng Ngholeg Pencraig, Llanfeydd. Ei destun oedd Penhigion Tŷ. Cawsom amrywiaeth o gynghorion buddiol ganddo. Cafwyd noson eithriadol o hwyliog a ddiadorl. Diolchwyd iawn gan Mrs Ann Evans, Penisarwaun. Estynnwyd ein cydymdeimlad dwysaf at Dr Eirwen Gwynn a Mrs Mair C. Jones, Ogwen yn eu profedigaeth. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Olwen Llywelyn ar ôl ei thriniaeth yn yr ysbyty. Darllenwyd ymddiheuriad am ei habsenoldeb oddi wrth Mrs C.

Evans, Lloc. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r ddwy. Llongyfarchwyd Mrs Beryl Thomas, Gerallt a Mrs Jean Davies, Rhyd y Delyn ar fod yn neiniau eto. Mwynhawyd te a bisgedi ar ddiwedd y cyfarfod wedi ei baratoi gan Mrs Joan Griffith, Miss Megan Humphreys, Mrs Marina Williams a Mrs C. Evans. Diolchwyd iddynt gan Mrs Megan Roberts. Enillydd y raffl oedd Mrs Enid Whiteside Thomas.

Ar Fehefin 11 bydd gwibdaith i Ynys Môn (Barclodiad y Gawres ac Ardal Berffro). Cychwyn yn brydlon am 6.45 o'r Sgwâr. Enwau i'w hanfon cyn diwedd Mai at Mrs Lovatt ynghyd â'ch dewis o fwyd a £1 o dâl bws.

GOFALAETH CAPEL MAWR LLANRUG A'R CYLCH

Annwyl bobl ifanc,

Fel y gwyddoch, fe benderfynwyd mynd am drip i'r 'Sun Centre', Y Rhyl, ym mis Gorffennaf eleni. Dyddiad y trip yw Gorffennaf 27. Bydd y bws yn cychwyn o Lanrug am 12 o'r gloch. Pris y bws yw £2 a phris mynediad i'r 'Sun Centre' yw £1.95. Hefyd gobeithir stopio am gyw iâr a sgolodion ar y ffordd yn ôl. Y mae croeso i unrhyw un dros 15 oed ddeod ar y trip. Gofynnaf i chi adael i mi wybod ar unwaith os ydych yn dymuno dod gyda blaendal o £2.

Yn gywir,

Y Parch John Morris

CARNIFAL - Nos Iau, Mehefin 20: **TOMBOLA** yn yr Ysgol Gynradd am 7. Nos Sul, Mehefin 23: **CYMANFA GANU** yn Eglwys Sant Mihangel am 7.30 (Elw at Gronfa'r Eglwys). Nos Lun, Mehefin 24: **PÊL-DROED** (7 bob ochr) ar Gae Eithin Duon am 6.30 (Elw at Glwb Pêl-droed Llanrug). Nos Fawrth, Mehefin 25: **DISCO** i blant ysgol gynradd yn unig, 6.15 - 7.45 plant i fyny at 8 oed; 7.50 - 9.30, plant hynaf. Yn yr ysgol gynradd. Nos Fercher, Mehefin 26: **HELFA DRYSOR** yn cychwyn o fuarth yr ysgol gynradd am 6.30 o'r gloch. Enwau i Mr a Mrs Vernon Jones, Rhandir Mwyn (Caernarfon 3695). Nos Iau, Mehefin 27: **NOSON GOFFI** yn yr ysgol gynradd 7 - 9 o'r gloch, hefyd **RAS HWYL** i riant a phlentyn yn cychwyn am 7 o'r gloch. **RAS** i blant 11 i 16 oed, cychwyn o fuarth yr ysgol am 7 o'r gloch. Manylion gan Mr Dafydd Arfon Jones, 3 Stad Minffordd (Caernarfon 5271). Nos Wener, Mehefin 28: **CYSTADLEUAETH DARTIAU** i OEDOLION yng Ngwesty Pen-y-bont. Manylion gan Mr Merfyn Ll. Jones, 54 Bro Rhyddallt (Caernarfon 4985). Elw at y Clwb Pêl-droed. Hefyd yr un noson **CYSTADLEUAETH DERFYNOL DARTIAU** i blant 11 - 16 oed. Yng

Nghanolfan Hafan Elan y bydd y gemau arweiniol yn cael eu cynnal wythnos o flaen y carnifal. Plant sydd am gymryd rhan yn y gystadleuaeth, rhwch eich enwau gyda 20c (tâl cystadlu) i Mr W.J. Griffith, Pant Tirion neu Mrs D. Jones, 18 Hafan Elan cyn Mehefin 12. Dydd Sadwrn, Mehefin 29: **DIWRNOD Y CARNIFAL**. Gorymdaith yn cychwyn o Fro Rhyddallt am 1.15 o'r gloch i fuarth yr ysgol gynradd gyda phartïon Dawnsio Gwerin ysgol gynradd Llanrug a'r Seindorf Arian ar y blaen. Manylion gan ysgrifenyddion y carnifal, Mrs Dilys Jones, 18 Hafan Elan (Caernarfon 5600) a Mrs Eirwen Williams, 1 Bryn Gro, (Caernarfon 5683). Bydd y pwyllgor yn ddiolchgar am roddion i'r bwrdd gwerthu yn y Noson Goffi neu gacennau erbyn diwrnod y carnifal. Nos Wener, Gorffennaf 12: **MABOLGAMPAU** yng Nghae'r ysgol gynradd. Manylion yn y rhifyn nesaf.

GWELLHAD BUAN - Dymunwn adferiad buan i Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Dewi Sant a hefyd i Mr Harry Roberts, Tai Plastirion, a dderbyniodd driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

MARW - Ar Fai 3 yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr R.E. Jones, Ogwen, yn 68 mlwydd oed. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Mrs Mair Jones, ei ferch Beryl a'i frodyra'i chwiorydd yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Mrs Mair Jones, Beryl a Phil, Ogwen, ddiolch yn gynnes iawn i bawb a gydymdeimlodd â hwy yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl. Diolch i'r Parch John Morris a'r Parch W.O. Roberts, ac yn

arbennig i feddygon y teulu, ac am y llu o gardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd. Cyflwynwyd y rhoddion o £370 i'r Feddygfa yn Waunfawr er cof am Mr Robert Emlyn Jones.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Ffestri Pontrhyallt ddydd Iau. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs Jones, Bronwyf, ac yn absenoldeb y llywydd a'r is-lywydd, rhoddwyd hanes Sasiwn genhadol y chwiorydd yn Nolgellau, gan Mrs Smith, Llechwedd a Mrs Jones, Bronwyf. Rhoddwyd y te gan Mrs Morgan Jones, Bronallt, a Mrs Nesta Pritchard, Rhyl (gynt o Glanfa). Bydd y cyfarfod nesaf Mehefin 20 am 2 o'r gloch.

GENI: Llongyfarchiadau i Elaine a Gwilym Jones, Glanffrwd, Pontrhyallt ar enedigaeth merch fach, Gemma Louise.

YR YSGOL FEITHRIN: Dyddiad i'w gofio! Ar ddydd Mawrth, Gorffennaf 2 am 10.45 a.m. mae gwahoddiad cynnes i famau a phlant ddod i'r Ysgol Feithrin yn Ffestri Capel Pontrhyallt. Mae'r gwahoddiad yn agored i'r rhieni sydd â'u plant yn dechrau'n yr ysgol fis Medi nesaf. Bydd cyfle i'r mamau gael sgwrs â'r athrawes a'r weinyddes, a chyfle i'r plant gynefino â'r ysgol.

Os am ychwaneg o wybodaeth am weithgareddau'r Ysgol Feithrin, cysyllter â'r Ysgrifenyddes, Mrs F. Roberts, Glyn Awel, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 4324).

Y CLWB PÊL-DROED: Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Clwb Pêl-droed Llanrug ar nos Fawrth, Mehefin 11 am 7.30 o'r gloch yng Ngwesty'r Foelas.



Tim Dartiau Merched Penbont ar ddiwedd tymor llwyddiannus gyda tharian am ddod yn drydydd yn y gynghrair.



Parti Dawnsio Gwerin Ysgol Gynradd Llanrug yng Nghastell Caernarfon yn diddori ymwelwyr o America.

D. LL. OWEN
1 BRYN AFON
TERRACE,
LLANRUG

FFÔN
C'FON 76699

Cludo Llwythi
Bychan a Chlirio
Safleoedd
Llwythi 3 Tunnell
Hefyd Trin Gerddi a
Thorri Gwair

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YMDDIHEURIAD – Ymddiheurwn am adael allan peth o newyddion Penisarwaun o rifyn Mai (Tony Elliott, Gol.)

YSGOL TAN-Y-COED – Dydd Gwener, Mai 24 ffarweliwyd â Seimon Edwards o Ddosbarth y Babanod. Gobeithio y bydd y teulu oll yn hapus yn eu cartref newydd, y Rheithordy ym Motwnnog.

YR URDD – Bu nifer o blant yr ysgol yn casglu arian 'Punt y Pen'. Enillodd rhai record hir, crys T, gonc, bathodynau a beiro. Da iawn chi blant.

Llongyfarchiadau i Eurgain Haf ac Angharad Price o Fethel am ennill yr ail wobwr drwy Gymru am ysgrifennu deialog. Deallwn fod Sioned Williams, Sioned Roberts ac Eurgain wedi cyfrannu at gywaith a ddaeth yn ail.

CAPEL BOSRA – Ebrill 28, bu plant yr Ysgol Sul yn brysur iawn yn cymryd rhan mewn dwy gymanfa. Yn y pnawn yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen bu'r plant yn cyflwyno stori Noa. Gwŷr mawr yr Hen Destament oedd thema Cymanfa'r Annibynwyr eleni. Diolch i chwi blant am wneud eich gwaith mor ganmoladwy.

Thema cwbl wahanol a gafwyd ganddynt yng Nghymanfa'r Wesleiaid yn Nhregarth, sef y Modulator. Mwynhaodd y plant ganu'r modulator, dysgu'r gân werin boblogaidd 'Tiwn Sol-ffa' ynghyd â'r gân Do-re-mi o 'Sound of Music'.

Llongyfarchiadau i'r plant canlynol a gasglodd at waith cenhadol tramor y plant. Derbyniodd Jonathan Richardson dystysgrif, bar a 'long service medal', Eurgain Haf, tystysgrif a medal, Sioned Wyn tystysgrif a medal, Hefina Wyn tystysgrif a medal, Siôn Roberts tystysgrif, Kenneth Richardson tystysgrif. Da iawn chi blant.

Edrychwn ymlaen rwan am y trip i'r Rhyl ar Orllofnaf 6.

EGLWYS SANTES HELEN – Bu Cymanfa'r Eglwys yn Llanfair-is-gaer ar Fai 19. Llongyfarchiadau i'r plant i gyd am wneud mor dda.

Cynhelir Gŵyl Bregethu Eglwys Santes Helen ar Fehefin 2. Croeso cynnes i bawb.

Nid newyddion hapus i unrhyw blwyf yw gorfod ffarwelio â'i ficer, yn enwedig y dyddiau hyn pan yw ficeriaid yn fodau mor brin, ond dyna a ddaw i'n rhan ni yn y fywoliaeth hon pan fyddwn yn ffarwelio â'r Ficer y Parchedig Aled Edwards, BA, Mrs Edwards, Seimon, Meleri a Steffan pan fyddant, ddiwedd y mis hwn yn symud i blwyf Botwnnog yn Llŷn. Bydd yn gadael bwlch mawr ar ei ôl ond dymunwn yn dda iddo ef a'i deulu yn eu cartref newydd. Bydd y cyfarfod sefydlu nos Fercher, Mehefin 12. Trefnir bws i fynd yno, enwau i Mrs Mary Davies os gwelwch yn dda.

CLWB YR HEULWEN – Mai 21, croesawyd Mr R.H. Parry, Cae Bold, Caernarfon. Ei brif bwnc oedd 'Paned o De'. Diddorol iawn oedd gwrando arno'n adrodd ei hanes ar Ynys Ceylon a'r ffordd y maent yn paratoi'r te ar ein cyfer ni. Diolchwyd iddo gan Mrs B. Evans a Mrs Nesta Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs J. Price Jones a Mrs Gwyneth Jones. Diolchwyd iddynt gan Mrs Nel Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs K. Williams. Bydd y cyfarfod nesdaf ar Fehefin 18.

CYDYMDEIMLO – Cydymdeimlwn â Mr Clifford Richardson o golli ei frawd yn Llundain yn ddiweddar.

Ein cydymdeimlad i chwi fel teulu hefyd o golli mam, nain a hen nain. Bu farw mam Mrs Eirlys Jones yn nhŷ ei merch Mrs Phyllis Evans yn 14

Neiniolen.

Deallwn fod Mrs Elinor Jones, Heather Bank wedi colli ei chwaer o Frynrefail. Ein cydymdeimlad dwysaf â chwithau hefyd.

GWELLHAD – Er bod y tywydd yn dal yn anwadal gobeithiwn fod y rhai fu'n sâl yn gwella.

CROESO – Croeso cynnes i Mrs Mary J. Roberts, Tai Croesion i Lys y Gwynt. Gobeithio y byddwch yn hapus yno.

Croeso adref o Bahrain i Mr Geraint Williams. Gresyn na fuasech wedi dod â thipyn o dywydd hefo chi, Geraint!

EISTEDDFOD Y PENTREF – Mai 10, cynhaliwyd Eisteddfod y Pentref. Bu cystadlu brwd o 5.30 hyd hanner nos, – i gyd yn gynnyrch y pentref. Y beirniad cerdd oedd Miss Deilwen Crump, Caernarfon, Beirniad Adrodd Mrs Madge Hughes, Llandwrog, Arlunio Miss Marian Wyn Jones, Waunfawr, Gwaith Llaw a Choginio Miss Anita Jones, Brynrefail. Y gyfeilyddes oedd Mrs Eirian Howells, Llanfairpwll. Yr arweinyddion oedd Mrs Ann Ifans a Mr Tony Elliott. Llywyddwyd gan Mr Bryngwyn Griffith, Penisarwaun. Dymuna'r pwyllgor ddiolch iddo am ei rodd haelionus i gyllid yr Eisteddfod.

Dyma restr yr enillwyr.

CANU dan 4: 1 Elgan, 2 Russell, 3 Vanessa a Siôn.

4-6: 1 Lois a Gwenllian, 2 Dafydd, 3 Ynyr a Seimon.

6-8: 1 Sioned Wyn, 2 Eleri a Sioned, 3 Llion.

8-10: 1 Sioned a Hefina, 2 Joanna, 3 Owen a Môrrigan.

10-12: 1 Dyfed.

12-15: 1 Dylan, 2 Eurgain Haf, 3 Sioned a Rhian.

Unawd Oedolion: 1 Julia Turner.

Unawd Pensiynwyr: 1 Mrs Katie Williams, 2 Mrs Porter a Mrs Percy Williams, 3 Mrs Lewis a Mrs Nesta Jones.

Cân Werin dan 12: 1 Dyfed, 2 Hefina.

Parti Canu dan 9: 1 Parti Siân, 2 Parti Owen, Parti Eryl.

Parti Canu dan 12: 1 Hogia Ni, 2 Parti Sioned.

Parti Cerdd Dant dan 12: 1 Parti Louise, 2 Parti Eleri.

Deuawd dan 15 oed: 1 Eurgain Haf a Sioned, 2 Rhian ac Eurgain.

Parti Canu 12-18 (Cân Ysgafn): 1 Maffia Mrs Evans.

Parti Deulais (Oedolion): 1 Parti'r Heulwen.

ADRODD dan 4 oed: 1 Elgan, 2 Sion, 3 Sian a Tracy.

4-6: 1 Tristan a Lois, 2 Dafydd, 3 Ynyr a William.

6-8: 1 Siuned Wyn, 2 Rhys a Louise, 3 Huw ac Eleri.

8-10: 1 Llŷr Tegai, 2 Hefina, 3 Andrea.

10-12: 1 Dyfed, 2 Andrew.

12-15: 1 Eurgain Haf, 2 Sioned.

Pensiynwyr: 1 Mrs Katie Williams, 2 Mrs Porter, 3 Mrs Percy Williams.

Parti Adrodd Oed Cynradd: 1 Parti'r Cochion, 2 Parti Andrea, 3 Parti Zarah.

Parti Oedolion: 1 East Enders.

Cyflwyniad Dramatig: 1 Parti Bryn Eglwys (Sioned Roberts, Sioned Williams ac Eurgain Haf), 2 Parti Llŷs y Gwynt (Mrs Katie Williams, Mrs Percy Williams a Mrs Eluned Porter).

RHYDDIAITH: dan 5: 1 Gwenllian, Llŷr Seimon, 2 Eryl, Ynyr, Angela.

dan 6: 1 Eira Wyn a Lois, 2 William a Daniel, 3 Tristan.

dan 7: 1 Rhys, 2 Huw, 3 Paul a Sioned.

dan 8: Babanod Uchaf – 1 Sioned Wyn a Caitlin, 2 Nia, Louise, Matthew, 3 Jonathan, Eleri Llion ac Arwel.

Safon 1: 1 Osian a Llŷr, 2 Rhian, Elisabeth, 3 Morrigan ac Owen.

Safon 2: 1 Joanna ac Andrea, 2

Sioned Hefina.

Safon 3: 1 Susan, 2 Ken, Seth, 3 Andrea Lewis.

Safon 4: 1 Stephanie, 2 Zarah, 3 Dyfed.

12-15: 1 Eurgain Haf, 2 Rhian, 3 Sioned a Dylan.

15-18: 1 Gwenllian.

BARDDONIAETH: Safon 1 a 2: 1 Sioned Lewis ac Andrea, 2 Hefina a Joanna, 3 Nia.

Safon 3: 1 Ceirion, 2 Susan, 3 Andrea, Ken a Seth.

10-12: 1 Dyfed, 2 Iola, 3 Dyfan.

12-15: 1 Eurgain Haf, 2 Sioned, 3 Rhian.

15-18: 1 Gwenllian, 2 Sioned, 3 Eurgain Haf.

Prif Lenor yr Eisteddfod am y trydydd tro oedd Eurgain Haf.

Llongyfarchiadau a dalied ati!

ARLUNIO: dan 4: 1 Elgan, Christopher, Meleri, Russell a Sion.

4-6: 1 Daniel, 2 Lois, 3 Llŷr.

6-8: 1 Jonathan, 2 Matthew, 3 Nia.

8-10: 1 Sioned Lewis, 2 Andrea, Llŷr Tegai.

10-12: 1 Dylan, 2 Corinna, 3 Yvonne.

12-15: 1 Dylan Pierce, 2 Darren, 3 Eurgain.

15-18: Fiona.

GWAITH LLAW: dan 4: 1 Iwan Glyn, 2 Christopher, 3 Meleri ac Elgan.

4-6: 1 Eryl, 2 Gwenllian a Lois, 3 Dafydd.

6-8: 1 Rhys a Huw, 2 Llion, 3 Arwel.

8-10: Llŷr a Susan, 2 Hefina ac Owen, 3 Andrea.

10-12: 1 Dyfed a Stephanie, 2 Bedwyr, 3 Andrew a Siôn.

12-15: 1 Rhian, 2 Eurgain Haf, 3 Dylan.

COGINIO: dan 13: 1 Iola, 2 Eurgain Haf.

13-18: 1 Fiona, 2 Delyth Roberts, 3 Delyth Evans.

Diolch i bawb fu'n cystadlu ac i'r rhai fu'n eich dysgu. Diolch i Mr Mowll a'r

athrawon am eu cydweithrediad yn yr ysgol. Gobeithio y cawn eisteddfod yr un mor lwyddiannus y flwyddyn nesaf.

DIOLCH – Casglwyd £19.14 at y Cheshire Homes. Diolch yn fawr i'r casglwyr.

CARNIFAL Y PENTREF: Cofiwch am Wythnos y Carnifal, Gorffennaf 7 - Gorffennaf 13. Gwylwch am ragor o fanylion.

CLWB 100 Y NEUADD: Cynhaliwyd Ffair Wanwyn hynod o lwyddiannus yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, Mai 24. Mae Pwyllgor y Neuadd yn dymuno diolch i bawb a helpodd ar y noson ac am bob cefnogaeth gan y pentrefwyr. Diolch i ymdrechion pawb sicrhawyd tua £140 o elw tuag at gronfa'r Neuadd. Enillwyr Clwb 100 am y mis oedd:

1. £20: Mr H. Lewis, Penpwllcoch

2. £12.50: Mrs W. Thomas, 4 Bryntirion

3. £7: Mr H. Williams, Tanyffordd.

Llongyfarchiadau hefyd i Andrea Patterson a enillodd wobwr am werthu mwy o docynnau na neb arall ar gyfer y Ffair Wanwyn.

Ein gweithgaredd am fis Mehefin fydd cerdded Llwybrau Cyhoeddus y pentref. Croeso cynnes i bawb yn oedolion a phlant. Ddydd Sadwrn, 22 Mehefin, dowch i adnabod eich cynefin!

LLONGYFARCHION i Gwynfryn Williams, Trem Gynfi am ennill pencampwriaeth codi pwysau Cymru dan 18 oed yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

RHYBUDD

Bydd Ann Ifans yn dod o amgylch i gasglu ei harian gan y noddwyr. Ydi, mae hi wedi colli rhywfaint o bwysau. Diolch i chwi am noddi.

YSGOL TAN-Y-COED PENISARWAUN



Yn dilyn cywaith ar Addysg Ddeintyddol bu plant dosbarth y babanod yn brysur yn ystod yr Wythnos Wenu, yn edrych ar ôl eu dannedd ac yn gwneud gwahanol weithgareddau. Wedi mwynhau eu perfformiad dramatig, bydd athrawon a phlant ysgol Tan-y-coed i gyd hefo dannedd glân a chryf. Daliwch i wenu!



PÊL-DROED

Mae'n amlwg fod dillad pêl-droed newydd ein hogiau ni yn plesio gan eu bod wedi ennill y gêm yn erbyn Ysgol Cwm-y-glo am yr eildro. 4 gôl i 0 oedd y sgôr, a'r sgorwyr oedd

Dyma barti o hogiau dawnsu, cawsant gyntaf am ganu a chyntaf am gydadrodd. Da iawn chi'r Cochion.

Jonathan 2, a Bedwyr 2.

PENISARWAUN

(parhad)

LLUNIAU O EISTEDDFOD Y PENTREF



Parti'r Heulwen, enillwyr y parti deulais.



Mrs Katie Williams, enillydd ar adrodd a chanu i bensynwyr.



Eurgain Haf, Prif Lenor yr Eisteddfod am y trydydd tro.

RHODDION

Diolch unwaith eto i'r cyfeillion canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:
£10: Parti Clychau'r Grug
£5: Er cof am y ddiweddar Mrs C.M. Morris, Clwt-y-bont; Di-enw.
£2: Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, Deiniolen; Mr Emyr Pritchard, 1 Ffordd Deiniol, Deiniolen; Mrs Maggie Jones, 7

Hafod Olau, Deiniolen; Mr a Mrs H. Jones, Buarth Newydd, Dinorwig; Mrs Medwen, Foel, Dinorwig; Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel, Dinorwig; Mr Meirion Jones, Weirglodd Las, Penisarwaun; Mr Close, 16 Maes Gwylfa, Clwt-y-bont; Miss Phyllis Jones, Penygroes (gwobr croesair).
£1: Mrs Maxwell, Brynrefail.

AM DDEWIS HAEL A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I

SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN

Ffôn:
Llanberis 871272

CANOLOG I'R FRO



TAN-Y-COED

Yn sydyn wedi gwaeldd a llesgedd hir yn ei chartref Las Ynys bu farw Mrs Annie Daniel Jones, aelod ffyddlon o eglwys Tan-y-coed MC nes ei goddiweddyd gan waeldd. Cydymdeimlwn â'i merch Mrs Jane Humphreys, ei hwyres Nia, a'i chwaer Mrs Jones a't teulu oll yn eu hiraeth a'u galar.

Dydd Gwener, Mai 3 yn sydyn iawn bu farw Mr Robert Jones, Colwyn Bryngwyn yn Ysbyty Gwynedd. Nid oedd ond chwe mis er pan ddaeth Mr a Mrs Jones i fyw i'r ardal o Coventry. Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Mrs Catherine Jones, priod Mr Robert Jones, a'r ddwy ferch a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr sydyn.

Pnawn Sul, a'r Parch John Morris, y gweinidog, yn gwasanaethu, derbyniwyd Mrs Catherine Jones, Colwyn, yn gyflawn aelod o eglwys Tan-y-coed MC. Estynnwyd croeso cynnes i Mrs Jones i'n plith gan y Parch John Morris a chydymdeimlwyd â Mrs Jones ac â Mrs Humphreys a'u teuluoedd ar ran yr eglwys gan y gweinidog.

Yng Nghymanfa Flynyddol MC cylch Caernarfon yn y Bontnewydd

gwobrwywyd y canlynol o Eglwys Tan-y-coed MC am ennill y wobr gyntaf yn yr Arholiad Llafar: Dan 3: Rheon Parry a Sian Pritchard; dan 4, Sion A. Stokes a Steven P Williams; dan 6, Llion W Pritchard; dan 9, Imran Chohen a Jonathan P Williams; dan 10, Mark W Jones, Tudor W Jones ac Aled Parry; dan 11, John E Jones a Neelum Chohen; dan 12, Annwen Parry; dan 13, Wyn Parry. Hefyd gwobrwywyd a ganlyn am eu llwyddiant yn yr Arholiad Ysgrifenedig: dan 14, Annwen Parry a Lona P Roberts; dan 11, John E Jones, Tudor W Jones, Mark W Jones ac Aled Parry.

Dydd Mawrth, Mai 14 cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwy Plant ac Oedolion Henaduriaeth Arfon yn Jerusalem, Penmaenmawr. Gwahoddwyd i'r cyfarfod ymgeiswyr yn yr Arholiad Sirol a ddaeth i'r Dosbarth Cyntaf. Y plant a wahoddwyd o Dan-y-coed oedd Annwen Parry (dan 14), John Elwyn ones, Tudor Wyn Jones ac Aled Parry (dan 11). Cyflwynwyd tystysgrifau dosbarth cyntaf iddynt gan Miss Bessie M Jones, Waunfawr.

GŴYL GORAWL ERYRI 1985

Man cyfarfod yr Ŵyl eleni oedd Eglwys Sant Mair, Llanfairisgaer, Y Felinheli.

Ar nos Iau Dyrchafael cynhaliwyd Gŵyl yr Oedolion o Gymun Corawl. Cymerwyd rhan gan y Parch Richard Jones, Llanfairisgaer (Deon Gwlad Arfon); y Parchn Aled Edwards, Alun Hawkins, Aled Jones Williams, T. Erwyd Edwards a Mr Robert Williams. Traddodwyd y bregeth gan y Parch Ganon G. Hywyn Jones, Caergybi, un a fagwyd ym mhlwyf Llandinorwig.

Ar y prynhawn Sul canlynol, cafwyd Gŵyl y Plant. Yr arweinydd yn absenoldeb y Deon Gwlad (oherwydd gwaeldd) oedd y Parch Aled Edwards, Ficer Llandinorwig a Phenisarwaun, a oedd yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn Aled Jones Williams (Rheithor Llanrug) ac Alun Hawkins (Rheithor Llanberis). Yr organydd oedd Mr Cyril Williams.

Cyflwynwyd tystysgrifau i 170 o blant a oedd wedi cymryd rhan yn yr Adranau Llafar, Ysgrifenedig, Celf a Chrefft. Enillydd cwpan goffa Alun Jones eleni oedd Alison Edwards o Eglwys St Padarn Llanberis, gyda Iolo Griffith o Eglwys Crist Llandinorwig yn derbyn y darian.

Roedd canmoliaeth uchel iawn i'r gwaith yn gyffredinol, a'r Arholwr yn yr Adran Ysgrifenedig oedd Mr Tegid Roberts o blwyf Penisarwaun.



Alison Edwards, enillydd cwpan goffa Alun Jones.



Iolo Griffith, enillydd y darian.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

CROESO CYNNES I DÎM YR ECO

- dyna ddymuniad pawb ar staff y papur i Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun, wrth iddi ymuno â ni fel Golygydd Newyddion Pentrefi yn lle Tony Elliott. Bydd Amranwen yn dechrau ar ei gwaith yn swyddogol gyda rhifyn Medi'r Eco. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn y gwaith, a diolch yn fawr iawn iddi am ei pharodrwydd i helpu'r papur.

DINORWIG

GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Hugh S. Jones, Buarth Newydd, Dinorwig, ar ddatlu 50 mlynedd o fywyd priodasol ar Fai 6, 1985.

i Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ar ennill tystysgrif am ddysgu allan dan 50 mlwydd oed yng Nghymanfa Ysgolion Sul, Padarn.

i Mrs Pat C. Larsen, Penisarwaun ar fod yn llwyddiannus yn ennill sedd i Blaid Cymru yn Etholiad Cyngor Sir Gwynedd.

GWELLHAD BUAN – Dymunir gwellhad buan i Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian ar ôl derbyn llawdriniaeth feddygol yn Ysbyty Gwynedd.

MARW – Bu farw Miss Meira Foulkes, Dublin House ar Fai 14 yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Bu'n aros gyda Mrs Maggie Evans, Dublin House am ddeng mlynedd lle cafodd ofal tyner cyn gorfod mynd i'r ysbyty am gyfnod maith. Cydymdeimlir â'r perthnasau yn eu profedigaeth.

CYMANFA GANU'R BEDYDDWYR – Eleni ym Mhenel, Bangor y cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr Sir Gaernarfon, ddydd Sadwrn, Mai 4. Roedd oedfa'r prawn am 2 o'r gloch ac oedfa'r hwyr am 5.30. Yr arweinydd gwadd oedd Mr Richard Wynne Williams, Dolgellau, a'i ferch a wasanaethai wrth yr organ yn y prynhawn, a Mrs Enid Griffith, Porthaethwy yn yr hwyr. Y llywyddion oedd Miss Mary Richards, Caernarfon a'r Parch J. Idwal Jones, Llandudno. Ar fyr rybudd gofaliwyd am ddefosiwn y prawn gan Sarah Wood o Sardis, Dinorwig oherwydd methiant ar ran plant Llanllyfni, a'r ieuenctid a ymgymerodd â defosiwn oedfa'r hwyr. Enillwyd tystysgrifau Arholiad Llafar gan Siân Wyn Evans ac Eleri Wyn Evans, y ddwy yn llwyddo i gael 'Seren Aur', safon ganmoladwy iawn. Y Parch Gwyn Thomas, Pwllheli a leisiodd y diolchiadau. Er oerni'r hin y tu allan roedd gwres yn y dymheredd a'r canu i mewn yn yr addoldy.

O'R YSBYTY – Ein cofion am wellhad i Mr Richard Gwilym Jones, Tan y BUarth Uchaf, Dinorwig ar ei ddyfodiad o Ysbyty Gwynedd. Hefyd Mr Hugh S. Jones, Buarth Newydd sydd yn Ysbyty Eryri. Brysiwch adref.

DIOLCH – Dymuna Mrs Medwen Griffith, Foel, ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd tuag at y rhai dan anfantais meddyliol. Cyfanswm y casgliad oedd £40.78.

Dymuna Mr a Mrs Hugh S. Jones, Buarth Newydd, ddiolch o galon i bawb am eu teimladau da iddynt ar

ddatlu eu priodas aur ar Fai 6.

Dymuna Mrs Katie Griffiths, Arwelfa, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd, cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i feddygon a staff wardiau Moelwyn a Hebog am eu gofal tyner. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna teulu'r diweddar Mrs Sra Carr, Porthcawl (Penrhiw gynt) ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Trebor Thomas, Bwlch Gwynt ar ei benodiad i swydd 'Artificial Inseminator' gyda'r Bwrdd Marchnata Llaeth yn Llangedfni, Ynys Môn.

CYNGOR CYMUNED – Fel y gwyr nifer ohonoch yn barod mae'n debyg y bydd y cynllun adennill tir o Minffordd i Allt Ddu yn cael ei gwblhau o fewn y misoedd nesaf. Yn wyneb hyn bu i'r Cynghorydd Glyn Tomos godi nifer o bwyntiau ynglŷn â'r cynllun yn y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor Cymuned a'r canlyniad oedd i'r Cyngor gytuno yn unfrydol o blaid dwyn y pwyntiau gerbron Cyngor Arfon. Ar gyfer eich gwybodaeth dyma'r pwyntiau a godwyd gan Mr Tomos:

(1) Deallwn fod Cyngor Arfon wedi neilltuo darn o dir (Allt Ddu) ar gyfer defnydd pobl leol i gynnal gweithgareddau fel carnifal blynyddol ac ati. Defnydd ar gyfer dau neu dri diwrnod y flwyddyn fydd hyn tra am weddiill y flwyddyn bydd y darn tir yn cael ei glustnodi ar gyfer defnydd defaid i bori arno. Gwrthwynebw'n y bwriad hwn oherwydd hoffem weld y darn tir dan sylw yn cael ei neilltuo yn **benodol** ac yn **unig** ar gyfer defnydd y gymuned leol, h.y. defnydd trwy'r flwyddyn. Am y tro cyntaf erioed yn hanes yr ardal dyma gynnig darn o dir gwastad ac o'r maint iawn i gynnal pob math o weithgareddau. Teimlwn bod ardalwyr Dinorwig wedi disgwyl yn hir iawn am hyn a theimlwn bod y cyfle yma yn un na ellir fforddio'i golli.

(2) Mae angen safleoedd addas ar hyd y ffordd fawr ar gyfer gosod seddau i bobl gael seibiant wrth gerdded o gwmpas. O'r blaen 'roedd cyfle i eistedd i lawr ar y waliau llechi bob ochr i'r ffordd ond gan mai ffens ac nid waliau a fwriedir ar hyd y ffordd newydd yna credwn y dylai Cyngor Arfon osod a neilltuo seddau pwrpasol yn awr.

(3) O safbwynt diogelwch teimlwn y dylid gosod wal ac nid ffens ar hyd y ffordd fawr. Rydym yn argymhell hyn oherwydd ar un ochr i'r ffordd mae'r

tir yn syrthio'n serth iawn ac os digwydd i gar fynd oddi ar y ffordd yna fe allai damwain drychinebus ddigwydd.

(4) Eto o safbwynt diogelwch teimlwn y dylid gosod ffens ar bob ochr i'r dŵr a fydd yn llifo o Allt Ddu i lawr i Afon Pen Rallt. Fe ellir yn hawdd ddychmygu plentyn yn syrthio ac yn cael ei dynnu gyda llif mawr yr afon a boddi. Fe all hyn ddigwydd yn ddigon hawdd pan ystyrir bod cwrs un o'r llwybrau yn mynd heibio i'r llif dŵr.

(5) Credwn y dylid gosod cysgodfan newydd yn Allt Ddu. Roedd cysgodfan yno o'r blaen ond fe'i tynnwyd i lawr fel canlyniad i'r cynllun yma. Roedd yr hen gysgodfan wedi ei leoli wrth ymyl adeilad cadw trên chwarel gynt ac yr oedd yn gwasanaethu pobl oedd yn disgwyl am fws i Gaernarfon neu Fangor.

Os oes gan rai ohonoch bwyntiau eraill y dylai Mr Tomos dynnu sylw Cyngor Arfon atynt ynglŷn â'r cynllun hwn cysylltwch ag ef yn fuan. Nawr yw'r amser i godi unrhyw bwyntiau cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Os ydych yn cytuno â'r pwyntiau a godwyd gan Mr Tomos yna cysylltwch â'r Cynghorwyr Pat Larsen a Jacob James yn dangos eich cefnogaeth er mwyn sicrhau bod Cyngor Arfon yn cario allan ddymuniadau ardalwyr Dinorwig.

Fel llawer hen ardal yng Nghymru Daeth newid i ninnau'n ein tro. Colled weithiau o'r newid, Ac weithiau gwelliant i'r fro. Diwedd ar chwarel Dinorwig Ysigodd gymdeithas glos, lân; Bu'n ergyd i ardal Gwaun Gynfi, Dwysaodd ei hysbryd a'i chàn.

Nid oes plant yn tyrru i'r ysgol Ar alwad yr hen gloch 'nawr. Siop Catrin a Siop Leusa Roberts A suddodd i Ddwl Chwarel Fawr. Saeson sy'n llawer hen dyddyn, Neb â buwch, dim ond defaid di-ri, Rhai barus, a neb am eu hawlio: "O na, nid fy nefaidd i".

Rhyw dinc o hiraeth ddaw eto Ar ôl inni glywed y 'news', Tybed ai gwir y stori Atal ar Fws Joni Huws? Gwasanaeth a ddaeth yn sefydliad, Hwylustod i'r ifanc a'r hen, A theimlad agoswydd personol Rhyngom a'r hen hogia clên.

Mae Joni, yr hen berchennog, Ar hun ers amser maith, A'r bws aeth ar ei hen sodla, Daeth yntau i ben y daith. A rhan o'r berthynas a ffynnodd Mor gynnes drwy'r ardal erioed Oedd natur y dyn wrth yr olwyn Sy'n hysbys i bawb, Gwilym Lloyd.

Mor barod ei wên a'i gymwynas, Yn siopwr i ddegau heb wall, Dod â phapur papuro i rywun Neu flodau at angladd i'r llall. Galw yn Boots hefo papur Am botel at annwyd i Taid, Mae'r ardal a'r pentre'n ddyledus Am droeon caredig di-baid.

Mae'n debyg na ddaw byth i'w feddiant Nac anrhydedd na'r llawryf gwyrdd, Ond cofir am ei gymwynas Ymysg y trigolion fyrdd. Os Gwilym Lloyd sy'n ein gadael Gobeithio yn wir y daw Rhyw Joni a'i fws i'n cludo I Fangor lawr o'r 'Pen Draw'.

CYMDEITHAS UNDEBOL: Bydd trip y Gymdeithas yn ymweld â Neuadd Erddig, Wrecsam ddydd **Sadwrn Mehefin 22**. Bydd y bws yn cychwyn am 8.30 yn y bore. Bwriadwn ymweld â'r neuadd yn y bore, ac yna treulio gweddill o'r dydd yn Wrecsam. Pris y bws fydd £2.00 y pen a chaniatau iddo fod yn llawn. Bydd angen talu rywfaint i fynd i'r Neuadd. A fyddwch cystal a rhoi eich henwau un ai i Mrs Renee Morris, Maes Eilian, neu i Miss Olwen Roberts, Tŷ'r Ysgol. Croeso cynnes i bawb.

TRIP CLWB ERYRI

Bydd aelodau Clwb Eryri yn ymweld â Gwlad Llŷn brynhawn Sadwrn, Mehefin 15, gan alw i weld eglwys Boduan, Capel Newydd Nanharon, Uwchmynydd, Aberdaron a chinio fin nos yng Ngwesty'r Linksway, Morfa Nefyn. Gan fod amryw o'r aelodau yn siomedig na chafwyd trip y llynedd penderfynodd y pwyllgor drefnu trip eleni gan wir obeithio y bydd y gefnogaeth a addawyd yn bodoli. Dylai pawb sy'n bwriadu dod ar y trip gysylltu â'r ysgrifennydd, Rol Williams, Ardwyn, 5 Pant y Waun, Waunfawr (Waunfawr 457) ar unwaith.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs J.E. Ellis, 8 Glanrafon (870733)


CYMANFA – Cynhaliwyd Cymanfa'r Cylch yn Nisgwylfa, Deiniolen eleni dan arweiniad Mr John Jones, Deiniolen. Llonyferchir plant Ysgol Sul Rehoboth ar eu llwyddiant yn yr arholiadau.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Ann Jones, 2 Nant Ffynnon ar fod yn nain eto. Ganwyd mab i Glenys a Keith Bingham, Deiniolen, brawd bach i Sarah.

MARW – Yn gynnar yn y mis ym Mhlas Pengwaith bu farw Mrs Sally Evans, gynt o Tŷ Gwyn yn 94 oed. Cydymdeimlwn â'r mab a'r teulu yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHION i Dafydd Pritchard, Tŷ Isa ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Llonyfarchion hefyd i Helen Mai, Tŷ Isa ar ei llwyddiant yn Mabolgampau Ysgol Brynrefail. Enillodd y darian 'Vitrix Ludorum'. Da iawn Helen.



BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr **CALOR GAS**



I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...

Osmond W. Shaw
DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

MOESWERSI'R GWANWYN

Byddai'r hen bobl gynt yn hoff o adrodd cwpleddau a moeswersi ynddynt i'r ifanc. Dyma rai:

Y neb a dynno nyth y wennol
Ni wêl fwyniant yn dragwyddol,
Y sawl a dynno nyth y dryw
Ni chaiff weled wyneb Duw.

Ceiliog gwyn a chath ddu
Na chadw'r rhain o gylch dy dŷ.

Slwt i'r hanner sy'n golchi ddydd
Gwener,
A slwt i'r asgwrn sy'n golchi ddydd
Sadwrn.

Cosi ar y llygad dde
Llawenydd o bob lle,
Cosi ar y llygad chwith
Dagrau fel y gwllith.

CEIRIOG A GWAS Y GOG

Gwnaeth y bardd Ceiriog gân fach dlos i was y gog ar yr alaw 'Y Deryn Pur'. Ar wahân i'r ffaith fod deryn dieithr yn hudo adar cartrefol i'w ganlyn, y mae hefyd ryw swyn neilltuol yn y gog i hudo aderyn yn was iddi. Dywed Ceiriog y cred rhai fod y gwas bach ffyddlon yn cael ei ladd ganddi nos drannoeth a'i fwyta ar ben y clawdd am ei ffyddlondeb iddi. Yr ydym yn disgwyl y gog bob dydd rwan. Dyma bennill o gân Ceiriog:

A welaist ti mo was y gog
A'i galon bur mor gynnes
O fryn i fryn, o ddôl i ddôl
Yn mynd ar ôl ei feistres?
A hithau'r gog yn canu, canu,
Nes gwneud i'r deryn bach syfrdanu,
Am ddysgu y ddau nodyn rhyfedd
A'i denai ef fel swyn-gyfaredd,
Heb fawr o feddwl troai'r gog
I'w ladd ef yn y diwedd.

CLYCHAU EGLWYSI'R WLAD

Y mae llecyn ar fryn uchel uwchben pentref Cwm-y-glo i glywed clychau Eglwysi'r wlad ar fore Sul tawel. Bwlch yw enw'r lle ac yno y magwyd Dewi Jones California gynt.

Mewn llythyr at fy nhad flynyddoedd yn ôl bellach y mae Dewi Jones yn dweud hanes y clychau y bu ef yn gwrando arnynt pan oedd yn blentyn. Yr oedd clychau'r eglwys i'w clywed am bellter mawr, a'r cwbl yn creu melodi yn yr awel ysgafn, a'i glust yntau mor denau.

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Dyna gloch Eglwys Llandinorwig yn dechrau canu: felly gwyddai Dewi ei bod yn chwarter i ddeg: ond mewn hanner munud dyna glychau eglwysi Penisarwaun a Llanddeiniolen yn dechrau swnio yn y pellter, a thonc gwan cloch Eglwys Llanrug, a bron yr un eiliad dyna gloch eglwys fach Cwm-y-glo yn dechrau tincian yn ein hymyl.

Y mae'r cwbl yn canu yn awr, ac nid yw'n anodd eu hadnabod oddi wrth eu gwahanol seiniau. Amcan y clychau hyn yn y dechrau, meddid, oedd dychryn ysbrydion drwg a'u tarfu ymaith oddi wrth yr eglwys, ond yn awr galw pawb i'r eglwys ydyw'r amcan:

'Llan-Llan-Llan yw'r fan i fod!'

MARW DEWI JONES

Dydd Mercher, 10fed o Ragfyr 1958 y bu farw'n frawychus o sydyn Dewi Jones, Bele, California, y soniais amdano uchod. Brodor o Gwm-y-glo oedd Dewi Jones, a bu'n gweithio yn Chwael y Glyn cyn ymfudo i'r Taleithiau ar ddechrau'r ganrif bresennol. Gadawodd briod a dau fab.

Gŵr duwiol iawn ydoedd ac yn swyddog yn y Capel Cymraeg yn Los Angeles. Cafodd gras afael arno yn Niwygiad Evan Roberts.

Bu'n gefn cryf i'r achos yn Los Angeles. Canai yn angladd pob Cymro yn ei dalaith oherwydd yr oedd ganddo lais tenor gwyh. Ar ei daith yn ei gar i wrando ar Gwynfor Evans yn areithio ar Blaid Cymru yr ydoedd pan alwyd ef 'at ei wob'. Bu yma yn Eisteddfod Llanrwst 1951 am dri mis. Un o dueddau Mynydd Hiraethog oedd ei briod.

ENGLYN CAPEL HELYG
Y GROGLITH 1941

Amlen

O dan sêl heb ei ddolach - anfonaf
Annerch dwfn gyfeillach,
A thrwy'i borth rhof lythyr bach
A freiniwyd â chyfrinach.

Gwnus

BLODYN Y GAEAF

O! mor dyner yr heria - oer ystorm!
Er ei stŵr nid ofna.
Y mae'n arwydd mewn eira
Fod yn ôl gynhesol ha'!

Thomas Davies
Gorseinon

AMSER GWELL

Daw gwynnach byd a gwanwyn, - a daw haf

Wedi hin anhyfwyn
I roi lifrai i lafrwyn
A bonet aur ar ben twyn.

Isnant, Llanrwst

BONEDD

Nod y dyn da dihanan - a hynaws
Yw bonedd di-ogan;
Cywir a gŵyl câr y gwan,
Nid ymeifl mewn dim aflan.

J.W., Llundain

HEN FEIRNIAD GYDA
LOCSYN HIR IAWN

(yr oedd gwraig y beirniad hefyd ar y llwyfan)

Y blew mawr o Bliwmaras, - y trosol
Mewn trowsus a chrysbas,
Hoelan bren a halan bras,
A hen ddyn a hen ddynas!

Pwy?

AR FEDD HUGH DAVIES
LLANGYBI 1901

Dyn oedd a rodiai'n addas - a'i synnwyr
Rôl swyn i'w gymdeithas,
Ac am weini cymwynas
Pwy yn ei blwy' gâi well blas?

Tudwal (ei fab)

GWNUS YN METHU SAETHU
CWNINGEN

Rôl troi o gylch, rôl 'try again' wyrgam
Ergyd at gwningen
Aeth y bardd chwilboeth ei ben
A thaniodd at eithinen.

Gwilym Deudraeth

MIRI MAI MERCHED Y WAWR

Nos Wener, Mai 17, a neuadd Ysgol Brynrefail yn llawn o Ferched y Wawr o ranbarth Arfon cynhaliwyd ein Miri Mai. Prif drefnyddion yr Ŵyl oedd Eluned Bebb Jones, Bangor - y Llywydd; Hafwen Roberts, Bethesda - yr ysgrifennydd; Bethan Williams, Llanrug - cynullydd yr adloniant a Megan Williams, Groeslon - trefnydd y lluniaeth. Yno hefyd yr oedd Gwyneth Evans, y Llywydd Anrhydeddus a Mererid James, y Trefnydd Cenedlaethol.

Thema yr Ŵyl oedd Y Ferch yn y Gymdeithas Fodern, a dyma'r agweddau a ddewiswyd gan y chwe changen. Y Ferch ym Myd Addysg gan Caernarfon

Ysgol Feithrin fywiog ac athrawes radlon yn ymgodymu efo Arolygwr ei Mawrhydi, mam hiraethus a phlant didoriad, ac un hogan fach a brychni ar ei thrwyn yn mynnu siarad Saesneg - ac esgus yr athrawes 'Mae ei thad yn dod o Benmaenmawr', a sylwebydd o ddifri yn esbonio'r sefyllfa!

Y ferch mewn Gwleidyddiaeth gan Waunfawr

Corws o ferched yn cydganu 'Maggie, Maggie yn dragywydd yn rheoli Prydain Fawr', a'r Prif Weinidog yno ar y ffôn yn siarad efo un o'i ffyddloniaid. Ysbyty a Siop ddigon digalon, a phicedwyr styfnig yn datgan gwrthwynebiad.

Y Ferch ar y Cyfryngau gan Llanrug

Y newyddion yn cael eu darllen ar y teledu, a chôr yn llenwi'r amser cyn rhaglen Elinor - a

hithau yn croesawu'r tair - Ruth Parry, Madam Sera a Mari Gwilym i ymgomio. Prin y cafodd Elinor druan air i mewn yn erbyn y tair huawdl. A'r côr cerdd dant yn canu am Finafon a'r trigolion siriol!

Y Ferch yn y Cartref gan Ddeiniolen

Pasiant o wisgoedd merched ar hyd y blynyddoedd a sylw craff ar yr arferion a'r newid ddaeth o rod i rod.

Y Ferch efo Cydwybod Cymdeithasol gan Bethel

Efo trefniant graenus ar y llwyfan a'r sylwebydd a'r pianydd yn cynnal y corws. Sôn am Beti Cadwaladr yn y Crimea efo Florence Nightingale a Dorothy Parks yn gwrthod codi i'r dyn gwyn yn Alabama a thrwy hynny yn sbarduno y symudiad am iawnderau i'r dyn du a thuag at ferthyrddod Martin Luther King. Clod i'r merched dewr yng Nghomin Greenham, a chanu wedyn 'Y Gwanwyn ddaeth i Gymru' i danlinellu eu rhaglen.

Y Ferch ym Myd Chwaraeon gan Bontnewydd

Cangen o aelodau ifanc, nwyfus yn prancio'n heini ar y llwyfan, ac yn gwneud sylw cynnil am rai chwaraeon. Ac yr oedd Max Boyce a'i genhinen fawr yno a chôr swynol yn ei gynorthwyo. Diolch yn fawr iawn i Elfyn Thomas, Prifathro Ysgol Brynrefail am hwyluso pethau i ni, i bawb fu ar y llwyfan ac i'r merched fu'n paratoi lluniaeth i'r cannoedd.

Mary Vaughan Jones

M. ROWLANDS

MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

CREFFT-ELIDIR



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd crefftau lleol eraill: crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwael.

HEFYD YN SIOP

FFYNN A CHERRIG

STRYD FAWR, LLANBERIS

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR – Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill: 1, £40 Mrs B. Braddock, Adfa; 2, £25 R Williams, 18 Bro Waun; 3, £10 S. Wroe, Bryn Siroi.

CAPEL BETHEL – Ar y 6ed o Orffennaf bydd trip Capel Bethel yn mynd i'r Rhyll. Enwau'r rhai sy'n bwriadu dod gyda'r trip i Mr Gwynedd Williams, Bro Waun, neu Mrs Phyllis Jones, Rhoslan cyn gynted ag sydd bosib.

CLWB 100 PLAID CYMRU – Dyma'r enillwyr am fis Ebrill: 1, Gillian Wynn, Y Frenni; 2 Dic Jones, Llwyn Onn; 3 John Ellis, Glyn Awel.

YSGOL FEITHRIN – Cynhelir Ffair Haf awyr agored ddydd Sadwrn, Gorffennaf 13 yn y cae y tu ôl i'r Ganolfan.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Gwynedd Williams, 2 Bro Waun, ar ddatllu eu priodas Berl.

i Meira Turner, Collfryn ar ennill y wobwr gyntaf a chwpan am y Prif Adroddiad yn Eisteddfod Rhosgadfan; yr ail wobwr ar y Prif Adroddiad yn Eisteddfod Clynnog; a'r wobwr gyntaf a tharian ar y Prif Adroddiad yn Eisteddfod Carmel.

i Alun Williams, Bro Waun, ar ennill y wobwr gyntaf a chwpan ar y Gân Werin, a'r ail wobwr ar y Brif Unawd a'r Unawd Gymraeg yn Eisteddfod Clynnog; y drydedd wobwr ar y Brif Unawd a'r ail wobwr ar yr Unawd Gymraeg yn Eisteddfod Carmel.

i Elin Gwilym, Llidiart Wen, a Fflur Llewelyn, Tref Eilian, ar dderbyn gwobr yn yr Arholiad Ysgrythur yn y Cyfarfod Misol ym Mhenmaenmawr ac i'r holl blant a lwyddodd yn yr Arholiad Llafar.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Edith Ellis, Min y Nant, Mrs Arianwen Thomas, Bro Waun a Mr Gwilym Madoc Jones, Bro Waun ar golli brawd, sef Mr Robert Emyr Jones o Lanrug.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs A.B. Pritchard, 4 Tref Eilian ar golli ei brawd hithau.

ADREF O'R YSBYTY – Balch ydym o ddeall fod y canlynol wedi dychwelyd adref ar ôl arhosiad yn yr ysbyty, sef Mrs M. Lloyd Jones, Bryn Tawel, Mr Glyn Williams, Tref Eilian, Miss C.E. Williams, Is Eilian a Gwyn Parry, Ffridd Felen. Gobeithiwn eu bod yn dal i wella. Anfonwn ein cofion atynt i gyd ac i Mr Richard Rowlands, Bryn Golau, sydd yn yr Ysbyty yng Nghaerdydd yn cael profion.

YR YSGOL – Ar y 1af o Fai daeth Mr Eurig Wyn i'r ysgol i ddosbarthu bathodynau Nofio i'r plant: 1000m, Penny Duncan a Rhodri Sion; 800m, Gerallt Williams, Osian Gwynedd a Ffion Jackson; 600m, Susan Grindley, Kailey Jones, Haf Parry, Ceri Roberts a Meilir Gwynedd; 400m, Sam Pierce, Leanne Mallinson ac Alaw Jones; 200m, Neil Owen, Gareth James, Avril Charge a Bethan Wyn; 100m, Sara Williams; 20m, Elin Gwilym, Rachel Davies, Iona Williams, Thea MacDonald, Heather Owen a Diane Davies; 10m, Geraint Rees Roberts. Dysgwyr, Anwen Jones, Hefin Williams, David Henderson a Geraldine Henderson.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod diwethaf y Sefydliad a gynhaliwyd nos lau, Mai 2 croesawodd Mrs Pat Parry, y Llywydd, Mrs Margaret Lloyd Jones, yr Ysgrifennydd Sirol. Roedd Mrs Jones yn trafod y penderfyniadau ar gyfer y Cyfarfod Blyneddol yn Llundain ym mis Mehefin. Rhoddodd eglurhad manwl iawn ar bob penderfyniad a gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau ac i drafod ymhellach rai o'r materion oedd yn codi. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs H.M. Evans. Enillwyd y raffl, wedi ei

roi gan Mrs M. Nesfield, gan Mrs K. Wynn Jones. Nos lau, Mehefin 6 mae'r aelodau yn mynd i weld Glyn y Weddw, Llanbedrog. Bydd y Sioe Gwaith Llaw a Chynnyrch yn cael ei chynnal yn Feed My Lambs, Caernarfon nos lau, Mai 9.

Y GANOLFAN – Mae Canolfan Waunfawr wedi llythyru at bwyllgor yr Urdd yn diolch iddynt am eu cynnig i gasglu arian tuag at gost lleni ar gyfer llwyfan y neuadd fawr.

Dyweddodd Dewi Jones y byddai'n croesawu aelodau newydd i'r Clwb 300. Rhowch ganiad ffôn iddo os ydych yn awyddus i ymuno. Ei rif yw Waunfawr 345.

Diolchwyd i ofalwyr y Ganolfan; i Dic Rowlands sydd bellach wedi rhoi'r gorau iddi; i Barbara Griffith am lenwi bwlch mor barod dros gyfnod byr, ac mae'r pwyllgor yn dymuno'r gorau i Carys Jones, yr ofalwraig newydd.

Trefnir Swper Haf awyr agored ar gaeau'r Ganolfan ar Fehefin 28. Croeso i bawb.

Cynhelir Noson Goffi nos Wener, Mai 31. Cofiwch gefnogi. Bydd cyfarfod cyhoeddus blyneddol y Ganolfan rydwro ym Mehefin. Cewch fanylion yn fuan.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod yn y Ganolfan nos lau, Ebrill 25 dan lywyddiaeth Mrs Olwen Williams a threuliwyd y noson yn ymarfer tuag at Miri Mai sydd i'w gynnal yn Ysgol Syr Hugh Owen ar Fai 17. Croesawyd Miss Bessie M. Jones yn ôl ar ôl ei hanhwylder. Rhoddwyd y raffl a enillwyd gan Mrs Mary Slaven gan Mrs Gillian Wyn, a darparwyd y te gan Mrs Llinos Cadwaladr a Mrs Cadi Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 23 pryd y cawn sgwrs gan Mr Maldwyn Thomas o Fangor.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Oherwydd bod nifer o dripiu wedi eu trefnu yn ystod mis Mehefin gan wahanol fudiadau yn y fro ni fydd trip gan y Gymdeithas Llenyddol eleni fel y bwriadwyd.

DIOLCH – Dymuna Mr Thomas Glynne Williams a'r teulu, 17 Tref Eilian ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd ac ymholiadau amdano tra oedd yn yr ysbyty.

YR URDD – Bydd Cwmni Drama Llanberis yn perfformio eu comedi ddiweddar, 'Chwalu'r Nyth' nos Wener, Mehefin 7 am 7.30 yn y Ganolfan. Tâl mynediad, 50c a 20c i blant. Croeso cynnes i bawb.

MENCAP – Cynhelir Noson Goffi nos Wener, Mehefin 14 am 6.30 yn y Ganolfan. Stondinau a raffl. Croesewir unrhyw gyfraniad tuag at y noson.

MERCHED Y WAWR Y WAUN YM MIRI MAI



Y FRÂN WEN YN HEDFAN DROS WYNEDD

Cwmni'r Frân Wen yw'r enw a ddewiswyd ar gwmni Theatr mewn Addysg Gwynedd. Penderfynwyd ar yr enw yn bennaf oherwydd y cysylltiad lleol â chwedl Branwen. Mae cartref y Cwmni yn Harlech. Oddi yno teithia ledled Gwynedd i berfformio yn ysgolion y sir gan gyflwyno cynrychiadau difyr ag iddynt fwriadau addysgol pendant. Fel yr hen ddywediad am y frân wen hithau gobeithia'r Cwmni ei bod yn dweud y gwir!

"Rydym wedi sefydlu ein dull arbennig a bywiog o weithio," meddai Eirwen Hopkins, cyfarwyddwr Cwmni'r Frân Wen, "cafodd ein tri cynhyrchiad cyntaf dderbyniad brwdfrydig gan yr ysgolion ac mae'r plant yn dal i sôn am rai o'r cymeriadau."

Ymysg y cymeriadau wnaeth argraff ar y plant mae Cadi o gynhyrchiad cyntaf y Cwmni, **Ceiniog i Cadi**, a oedd yn ymwneud â'r syniad poblogaidd am wrachod; Galileo, prif gymeriad **Neges o'r Sêr**, cynhyrchiad gwyddonol yn ymwneud â bywyd a gwaith y gwyddonydd enwog; ac yna Mrs Candi Galon a'i gwersyll gwyliau, lleoliad **Cadwyn Frau** cynhyrchiad oedd ym ymdrin â chadwynnau bwyd a chadwraeth.

Bellach mae pedwaredd cynhyrchiad Cwmni'r Frân Wen yn diddanu plant y sir. Mae **Bwrlwm Byw** ar gyfer y babanod hyn. Ysgrifennwyd y sgript gan Angharad Tomos, enw cyfarwydd ym myd llenyddiaeth plant. Dyfarnwyd iddi ysgoloriaeth gan

Gymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru yn gynharach eleni i'w galluogi i baratoi deunydd ar gyfer plant.

Mae **Bwrlwm Byw** yn gynhyrchiad am wyddonydd sy'n dod o hyd i golurau gwahanol. Bwriad y cynhyrchiad yw rhoi cyfle i'r plant ymarfer rhai geiriau ac ymadroddion syml a dod i'r arfer a gwneud penderfyniad. "Mae **Bwrlwm Byw** yn crisialu ein dull o weithio," meddai Eirwen Hopkins, "stori syml a difyr sy'n sylfaen i bopeth, mae'r plant yn chwarae rhan amlwg yn y digwydd gan wneud penderfyniad ar y diwedd ar sut y gorffenna'r cynhyrchiad ac mae ynddo lu o agoriadau i waith dosbarth yn dilyn yr ymweliad."

Bydd Cwmni'r Frân Wen yn ymwneud â'r rhan fwyaf o ysgolion Gwynedd gyda **Bwrlwm Byw** gan wneud tros 150 o berfformiadau yn ystod taith naw wythnos a ddaw i ben ar 12 o Orffennaf.

Rhennir y Cwmni yn ddwy uned o ddau actor yr un ar gyfer taith **Bwrlwm Byw** sy'n golygu y gall wneud dwywaith y perfformiadau. Yr actorion sy'n ymddangos ynddo yw Carys Huw, Gwen Lasarus, Martin Wigley Evans a Llio Silyn. Gwnaed yr olygfa a'r gwisgoedd gan Mair Tomos Ifans.

Lleolir Cwmni'r Frân Wen yn Theatr Ardudwy a'i brif noddwyr yw Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

Am ragor o wybodaeth am Cwmni'r Frân Wen a'i waith cysyllter â: Geraint Wyn Parry, Gweinyddwr y Cwmni. Ffôn: Harlech (STD 0766) 780179.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLAU SENGL O £39 I FYNY
GWLAU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

RHAGOR O YSGOL BRYNREFAIL

Bydd arddangosfa o waith y buddugwyr yn yr Eisteddfod eleni. Llongyfarchiadau i bawb.

NOSON GOFFI

Ar Fai 7, cynhaliwyd noson goffi i godi arian tuag at dreuliau plant Adran yr Urdd ar gyfer Eisteddfod Caerdydd. Gwnaethpwyd elw o £330. Hoffem ddiolch o galon i bawb â'n cefnogodd ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd. Bydd ein dymuniadau

da yn mynd gyda'r côr, y parti deulais, y parti adrodd i gyfeiliant a'r offerynnwr ifanc, Graham Williams, a'r ddwy athrawes, Mrs Megan Roberts a Mrs Esyllt Maelor Jones. Hoffai pwyllgor yr Adran ddiolch hefyd i staff yr adran Gwyddor Tŷ am bob cymwynas ar Fai 7 ac i staff cegin yr ysgol, sydd mor barod eu cymwynas bob tro bydd yr Adran yn gwneud ymgyrch i godi arian fel hyn.



Llun y disgyblion a enillodd darian am berfformiadau arbennig yn y Mabolgampau.



Tîm Athletau'r Ysgol — pawb ddaeth yn 1af neu 2il yn y Mabolgampau.



Siân Wyn Jones — ail am farddoniaeth i ddisgyblion Blwyddyn 1af yn Adran Lenyddiaeth Eisteddfod yr Urdd.


LLUNIAU O FABOLGAMPAU'R YSGOL A BUDDUGWYR YN ADRAN LENYDDIAETH EISTEDDFOD YR URDD



Y 'CEJARS' — 1af am lunio cywaith i'r flwyddyn gyntaf yn Adran Lenyddiaeth Eisteddfod yr Urdd.



Y Tyffars — 3ydd yn yr Adran llunio cywaith.



MAFFJARICIAID — a gystadlodd ar y Cywaith i ddisgyblion yr ail a'r drydedd flwyddyn yn Adran Lenyddiaeth Eisteddfod yr Urdd am eleni. Cafodd Eurgain Haf, ar y chwith yn y llun, ail gydag Angharad Price am lunio sgwrs hefyd.

DYDDIADUR

DYDDIADUR MEHEFIN

- 2 Sul, **Penisarwaun**: Gŵyl Bregethu Eglwys Santes Helen.
- 3, **Llun, Llanberis**: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
- 4, **Mawrth, Bethel**: Taith Ddirgel Clwb Bro Bethel.
- 6, **Iau, Cwm-y-glo**: Gwibdaith Blynnyddol Clwb Pobl y Cwm.
- Waunfawr**: Taith Sefydliad y Merched i Glyn y Weddw, Llanbedrog.
- 7, **Gwener, Llanberis**: Te yr Henoed. Noson 'Bingo a Bwyd' yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30 — yr elw er budd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa.
- Waunfawr**: Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Chwalu'r Nyth' yn y Ganolfan am 7.30. Yr elw er budd y Ganolfan.
- 6, **Sadwrn, Bethel**: Taith Gerdded Noddedd i ben yr Wyddfa. Yr elw er budd yr Ysgol Feithrin.
- Deiniolen**: Taith Ddirgel Cangen Plaid Cymru.
- Llanberis**: Helfa Drysor y Carnifal. I gyhwyn am 10 a.m. o Angorfa.
- 10, **Llun, Llanberis**: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan.
- 11, **Mawrth, Llanrug**: Gwibdaith flynyddol Merched y Wawr i Ynys Môn.
- 12, **Mercher, Bethel**: Taith Ddirgel Merched y Wawr.
- 13, **Iau, Llanrug**: Taith Ddirgel Clwb Blodau'r Grug.
- 14, **Gwener, Llanberis**: Y Cwmni Drama yn perfformio 'Chwalu'r Nyth' yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
- Waunfawr**: Noson Goffi yn y Ganolfan am 6.30. Yr elw er budd MENCAP.
- 15, **Sadwrn, Deiniolen**: Cinio Swyddogol Seindorf Arian Deiniolen yng Ngwesty'r Anglesey Arms, Porthaethwy.
- Llanrug**: Taith Hanesyddol y Gymdeithas Undebol.

Yr Ardal: Clwb Eryri yn ymweld â gwlad Llŷn.

17, **Llun, Llanberis**: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

18, **Mawrth, Penisarwaun**: Clwb yr Heulwen.

19, **Mercher, Yr Ardal**: Cymdeithas Hanes Bro'r Eco — Taith Hanesyddol gan orffen gyda bwyd basged a sgwrs.

20, **Iau, Llanrug**: Tombola dan nawdd Pwyllgor y Carnifal yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.

Cymdeithas Chwiorydd Pontrhythallt.

21, **Gwener, Llanberis**: Te yr Henoed.

22, **Sadwrn, Llanrug**: Trip Ysgol Sul Capel Mawr i Butlins, Pwllheli.

Penisarwaun: Clwb Cant — cerdded Llwybrau Cyhoeddus.

Mehefin 23-29: Wythnos Carnifal Llanrug.

23, **Sul, Llanrug**: Cymanfa Ganu yn Eglwys Sant Mihangel am 7.30. Yr elw at Gronfa'r Eglwys.

24, **Llun, Llanrug**: Gemau Pêl-droed 7-bob-ochr yng nghae Eithin Duon am 6.30.

Llanberis: Gwasanaeth arbennig i ddathlu Canmlwyddiant Eglwys Sant Padarn am 7.00 o'r gloch.

25, **Mawrth, Llanrug**: Disgo i blant yr Ysgol Gynradd yn unig yn yr Ysgol Gynradd.

26, **Mercher, Llanrug**: Helfa Drysor y Carnifal am 6.30.

27, **Iau, Llanrug**: Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd rhwng 7 a 9 o'r gloch. Rasus am 7 o'r gloch.

28, **Gwener, Waunfawr**: 'Swper Haf' — Noson yn yr awyr agored wrth y Ganolfan. Yr elw er budd Cronfa'r Ganolfan.

Llanrug: Cystadleuaeth Dartiau yng Ngwesty Pen y Bont. Yr elw at y Clwb Pêl-droed.

Cystadleuaeth Derfynol Dartiau i Blant yng Nghanolfan Hafan Elan.

29, **Sadwrn, Llanrug**: Diwrnod Carnifal.

Padarn Lake Hotel

Perchnogion
Terry a Val Skilki

STRYD FAWR
LLANBERIS
870260

- Beth am bryd o fwyd yn ein Bar Lolfa newydd, hardd a chyfforddus, sydd ar agor amser cinio a fin nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Yn ein ystafell fwyta hefyd cewch ddewis rhagorol o brydau Table d'Hôte ac À la Carte. Croesewir plant.
- Mae ein lloffttydd newydd gael eu hadnewyddu'n foethus, llawer gyda bathrwm, teledu lliw ac offer gwneud te a choffi. Gellir gweld y llyn neu'r mynyddoedd o'r rhan fwyaf ohonynt.
- Ceir adloniant yn ein Bar Lolfa bob nos Sul, yn aml yn cynnwys talentau Cymraeg lleol.



CHWARAEON

Y GOLOFN SNWCER

gan Aeron Jones

Anlwcus oedd Llanrug yn y Gynghair. Roeddynt wedi bod ar y brig hyd y diwedd pan gollwyd i Glwb Llafur Llangefni o 5 ffrâm i 1. Fe aeth Clwb Llangefni ymlaen i ennill y Gynghair. Fe gurodd Clive Griffiths o Lanrug Gwpan Malcolm Morris o 3 ffrâm i 0 yn erbyn John Lloyd o Glwb Ceidwadwyr Bangor.

CWPAN YR ARWISGO

Duon Deiniolen 2-4 Porthmadog B
Gleision Deiniolen 4-2 Dynion Harlech
Duon Bethel 4-2 Gleision Nantlle Mae Gleision Llanrug eisoes yn yr ail rownd.

CYSTADLEUAETH SNWCER 'HAINSWORTH TOP-TABLE'

Cynhelir y gystadleuaeth yma bob blwyddyn ac eleni roedd hi'n cael ei chynnal yng Nghlwb 'Breaks' ym Manceinion. Bu i Clive Griffiths a Gareth Grindley guro'r gystadleuaeth yma yn y blynyddoedd a fu.

Eleni roedd Haydn Williams a Hefin Jones yn mynd gyda Mr Bob Humphreys, hyfforddwr Snwcer o Landudno.

Cyrhaeddodd Haydn y drydedd rownd ond colli a wnaeth i Troy Shaw, Rugeley, Staffs o ddwy ffrâm i un.

Aeth Hefin, ar y llaw arall, ymlaen i'r rownd derfynol ond yn anffodus yn colli o ddwy gêm i un i Troy Shaw.



Llongyfarchiadau i Haydn Williams ar ennill Cwpan Unigolion Cynghair Bangor a'r Cylch. Un ar bymtheg oed yw Haydn ac mae wedi ennill amryw o dylsau snwcer yn barod.

TÎM GLEISION LLANRUG CANLYNIADAU



O'r chwith i'r dde: rhes gefn: G. Griffith, N. Griffith, T. Brobyn. Rhes flaen: K. Williams, C. Griffith, K. Griffith.

		Ch	En	Colli
1	Gerald Griffiths	31	22	9
2	Clive Griffiths	31	27	4
3	Ken Griffiths	31	23	8
4	Nigel Griffiths	12	3	9
5	Ken Williams	28	20	8
6	Tony Brobyn	30	19	11
7	Tony Owen	22	15	7
8				
9	Arwel Williams	1	0	1

CARNIFAL LLANRUG PELDROED 7 BOB OCHR

Cynhelir cystadleuaeth bêl-droed 7 bob-ochr ar gae Llanrug ddiwedd mis Mehefin gyda'r gemau terfynol yn cael eu cynnal ar nos Lun, Mehefin 24 am 6.30 o'r gloch.

Bydd rhaid i'r timau gynnwys dwy ferch ac un dyn dros 40 oed. Tâl ymaelodaeth fydd £3.50 y tîm a chaniateir un merch fel eilydd.

Cyfyngir y timau i fro'r Eco. Os ydych am gystadlu cysylltwch â D.A. Jones, 3 Minffordd, Llanrug. Dyddiad cau - Mehefin 15.

- 4 : 2 Ceidwadwyr Felinheli (Duon)
- 5 : 1 Gleision Marbryn
- 2 : 4 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)
- 4 : 2 Duon Deiniolen
- 5 : 1 Ceidwadwyr Caernarfon (Gleision)
- 3 : 3 Crosville Caernarfon (Duon)
- 6 : 0 Gleision Nantlle
- 3 : 3 Cochion Llanrug
- 5 : 1 Clwb Cymdeithasol Bangor (Duon)
- 5 : 1 Duon Porthaethwy
- 4 : 2 Crosville Caernarfon (Gleision)
- 6 : 0 Ceidwadwyr Caernarfon (Duon)
- 6 : 3 Gleision Deiniolen
- 5 : 1 Duon Nantlle
- 1 : 5 Clwb Llafur Llangefni
- 5 : 1 Ceidwadwyr Felinheli (Duon)
- 5 : 1 Gleision Marbryn
- 1 : 5 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)
- 2 : 4 Duon Deiniolen
- 4 : 2 Ceidwadwyr Caernarfon (Gleision)
- 4 : 2 Crosville Caernarfon (Duon)
- 6 : 0 Gleision Nantlle
- 6 : 0 Cochion Llanrug
- 6 : 0 Clwb Cymdeithasol Bangor (Duon)
- 3 : 3 Duon Porthaethwy
- 5 : 1 Crosville Caernarfon (Gleision)
- 3 : 3 Ceidwadwyr Caernarfon (Duon)
- 5 : 1 Gleision Deiniolen
- 3 : 3 Duon Nantlle
- 1 : 5 Clwb Llafur Llangefni

CYNHADLEDD i Neuaddau Pentref a Chanolfannau Cymdeithasol Arfon

Nos Fawrth, Mehefin 11eg, 1985 am 7.00 p.m.
yn Neuadd Waunfawr

TÎM PÊL-DROED CESAREA 1950-51



Dyma lun o dîm pêl-droed Cesarea Rovers 1950-51. Y rheswm am gynnwys llun o fro Llew yn yr Eco ydyw fod cymaint o chwaraewyr o'r fro hon yn chwarae i'r tîm hwnnw - tîm a fu'n llwyddiannus iawn yn ystod tymor 50-51. oherwydd iddynt fod yn Bencampwyr Cynghair Caernarfon a chyrraedd rowndiau terfynol Cwpan Penrhyn a Chwpan Alves. Enwau'r chwaraewyr:

Rhes gefn (chwith i'r dde): J Axon, Pete, Lal, Maldwyn, Moi Glyn ac Elwyn.

Rhes ganol: Lei, Ben, Wil, Len ac Orwig.

Rhes flaen: Idris ac Alun (sef Alun Roberts, Deiniolen a anfonodd y llun i ni). Faint mwy o beldroedwyr y fro sydd yma?

BRWYDR ERYRI

Y PARC CENEDLAETHOL v Y RHEDWYR

Tybiwyd yn gynharach yn y mis y byddai Rasmus Mynydd yn yr ardal o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri yn y fantol yn dilyn gwaharddiad gan swyddogion y Parc ar Ras Fynydd y Garn, Rhyd-ddu oedd i'w chynnal am y tro cyntaf eleni ar Fehefin 29.

Er fod perchennog y tir ar fynydd y Garn wedi rhoi ei ganiatâd i drefnwyr y ras, roedd swyddogion y Parc wedi gwrthwynebu ar y sail y byddai'r rhedwyr yn difrodi ac yn erydu ardal a ddisgrifir ganddynt fel "environmentally sensitive".

Cysylltodd Mr. Ken Jones o Lanberis, sy'n Gadeirydd Cymdeithas Rasmus Mynydd Cymru, â'r Parc Cenedlaethol, gan fynegi ei bryder ynglŷn â'r 'gwaharddiad'. Ofnai y gallai'r Parc ymestyn eu 'gwaharddiad' i rasmus eraill a gynhelir o fewn terfynau'r Parc Cenedlaethol - Ras Elidir Fawr o bentref Nant Peris; Ras Moel Hebog o Feddgelert, a Ras Moel Siabod o Gapel Curig.

Bellach, sylweddolwyd nad oedd hawl gyfreithiol gan y Parc

i wahardd y ras. Drwy geisio gwahardd ras o'r fath, gallai'r oblygiadau fod yn ehangach, a golygu iddynt geisio gwahardd gweithgareddau eraill fel cyfeiriadu, a hyd yn oed ddringo! Yn amlwg, ni fyddai hynny'n bosibl, ac felly, rhedwyr yr ardal a orfu. Bydd Ras Mynydd y Garn yn cael ei rhedeg ddydd Sadwrn, Mehefin 29. Os oes rhedwyr lleol a diddordeb mewn cystadlu yna cysyllter ag A. Allport, Swyddfa'r Post, Rhyd-ddu. Y pris fydd £1.00

Ni chafwyd amser i gysylltu â'r Parc ynglŷn â'u 'gwaharddiad' ar y ras arbennig hon, ond croesawn unrhyw sylwadau perthnasol ganddynt.

Welsh National
OPERA
Cenedlaethol Cymru

Gwledd o Opera Eidalaid

THEATR ASTRA LLANDUDNO

Mawrth 11 & Gwener 14 Mehefin am 7.30pm
RIGOLETTO Verdi Cenir yn Eidaieg

Mercher 12 & Sadwrn 15 Mehefin am 7.30pm
TOSCA Puccini Cenir yn Eidaieg

Iau 13 Mehefin am 7.30pm
NORMA Bellini Cenir yn Eidaieg

Tocynnau: £10, £8, £4
ARCHEBU
O FLAEN LLAN:
Caffi Sandbach, 78a Stryd Mostyn, Llandudno,
Ffôn Llandudno 76522
O DDYDD SADWRN MEHEFIN 9
Theatr Astra: Ffôn Llandudno 76666

AR WERTH

Carafan 'Sprite', lle cysgu i 4 -
£250. Ffôn: Llanberis 870390.

Bws i Gemau Cartref MANCHESTER UNITED

Cysylltwch â

Bwsiau KMP

Llanberis 870880
neu Caernarfon
5449

(gyda'r nosau)

TUA 250
TUDALEN
AM DDIM OND
£2.50

CARIO'R DDRAIG gan Orig Williams



**Straeon,
atgofion -ac
ambell bregeth!**

**Lluniau,
cartwnau a
thoriadau
papur newydd.**

HUNANGOFIANT MWYAF LLIWGAR Y GANRIF!

Yn ystod mis Mehefin, cyhoeddir cyfrol y bu
hir ddisgwyl amdani —
stori gyffrous, ddoniol, ddifyr
Orig Williams, y reslar a'r cyn-chwaraewr pêl-droed.

Cawn glywed am ei brofiadau rhyfeddol
ac am ei helyntion ar hyd ac ar led y byd —
a hynny yn ei eiriau ffraeth ei hun.

“...wedi darllen “Cario'r Ddraig”, gallaf ddweud
yn sicr ei fod yn llenwi bwlch enfawr
yn ein llenyddiaeth, ac yn ei lenwi'n
anrhydeddus iawn.
...Cefais fwynhad eithriadol wrth ddarllen y llyfr.”

Richard Morris Jones, 'Llais Llyfrau'.

YN WYLLT...

Rydym i gyd yn gyfarwydd ag 'Orig Wyllt' — yr
El Bandito sy'n llawn o bob math o driciau yn y
cylch reslo.

Mae llawer wedi clywed am ei gampau ar y
maes pêl-droed hefyd...

...AC YN WÂR

...ond mae ochr arall i gymeriad y gŵr hwn o Ysbyty
Ifan. Hogyn o'r wlad ydyw, wedi cael ei hun yng
nghanol byd cythryblus iawn wrth geisio ennill ei
fywoliaeth. Drwy'r cyfan, mae'n Gymro angerddol,
yn caru iaith, barddoniaeth a chaneuon ei wlad.
Mae'n ŵr mwyn, cyfeillgar, o'i adnabod yn bersonol,
— darllenwch y gyfrol a dewch i'w 'nabod yn well.

Ar gael mewn siop yn eich ardal CHI!

LLANRWST
SIOP LYFRAU CYMRAEG
TAN-Y-GRAIG

Ffôn: Llanrwst 640493

PWLLHELI
LLÊN LLŶN
Y MAES

Ffôn: Pwllheli 612907

LLANELLI
SIOP Y WERIN
HEOL Y FARCHNAD

Ffôn: Llanelli 772312

CAERNARFON
SIOP Y PENTAN

Ffôn: Caernarfon 5262

Y BALA
AWEN MEIRION
Y STRYD FAWR

Ffôn: Y Bala 520658

ABERYSTWYTH
SIOP Y PETHE

Ffôn: Aberystwyth 617120

RHUTHUN
SIOP TREBOR HUGHES
16, HEOL CLWYD

Ffôn: Rhuthun 2534

Y RHYL
SIOP Y MORFA
109 STRYD FAWR

Ffôn: Y Rhyl 39197

BANGOR
SIOP PENDREF
77 STRYD FAWR

Ffôn: Bangor 362676

PORTHMADOG
SIOP EIFIONYDD

Ffôn: Porthmadog 2795

LLANGEFNI
Y CWPWRDD CORNEL
1A STRYD YR EGLWYS

— Yn y Siop Newydd Sbon! —

BETHESDA
LLÊN OGWEN
4, RHES BUDDUG

Ffôn: Bethesda 600431

CARIO'R DDRAIG

Orig
Williams